Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 14. Rhif 7.] GORPHENAF, 1914. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Pobl yr Un Llwybr. Anthropos.
Ymson y Myfyriwr.
Y Pererinion Dadau.
Parch. E. Ceredig Jones, M.A.
Cloffi Rhwng Dau Feddwl. R.J.J.
Rhai o Hen Gymeriadau Bwlchyfadfa.
Mr. T. G. Thomas, Talgareg.
Cymanfa Gerddorol Ceredigion.
Priodasau.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

E. L., Cefncoed; J. L. Rhostyllen; Parch. E. C. J., Ciliau Aeron; H. J., Nantymoel; M. J., Port Talbot; D. D., Llanbedr; Mrs. E., Tregaron; J. R. E. Ammanford; G. J., Castell, Pencarreg; D.D., Gorseinon; J. E., Caerdydd; Mrs. D., Dolbantau; J. D., Llwynyrheol; Mrs. J. E. J., Llandyssul; E. L., Bedlinog; D. H. S., Mountain Ash; Miss L., Dowlais; J. R. T., Pontsban; J. M., Blaengwynfi; Miss J., Trecefel; Mrs. R., Ysguborfawr; D. T., Llanbadarn; D. M. D., Aberamman; E. T., Llanychaiarn; Parch. J. G. D., Banbridge; Dr. J., Llanybyther; D. J., Llewele; Mrs. E., Esgerwenfawr; J. J., Llundain; D.J.G., Ferndale; D.E.B., Llwyneinon; D.J., Tydwgi; H.W.H., Pontsarn; J.G.J., Cwrtnewydd; J.E.E., Llundain; Dr. D.J.D., Aberystwyth; Parch. E.D.P.E., Bury; J.S.E., Aberdar; Mrs. E., Aberdar; Miss J., Pontsban; E.D., Nantmeddal; Mrs. D.J.T., Cribyn.

Geiriadur Newydd Spurrell.

CYMRAEG A SAESNEG.

Dan olygiaeth J. BODVAN ANWYL,

Gyda Rhagymadrodd gan Syr EDWARD ANWYL.

Pris 2/6 nett. Cludiad 3c. y copi.

'Crwth Dyffryn Clettwr'

PRIS (LLIAN) 2/-. CLUDIAD 2g. Y COPI.

Ychydig Gopiau heb eu gwerthu.

I'W CAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda.*"

CYFRES NEWYDD.] GORPHENAF, 1914. [CYF. XIV. RHIF 7.

POBL YR UN LLWYBR.

I.

YN y blwyddi a fu yr oedd dyn dall yn llanw'r swydd o lythyrgludydd mewn rhanbarth wledig yn Ngogledd Cymru. Cerddai, foreu a nawn, ar hyd yr un llwybr, a gwyddai am bob llidiart, clawdd, a thŷ annedd o fewn ei ddyddgylch. Nid oedd arno eisieu neb i'w arwain, ond bu efe yn arwain dieithriaid lawer tro, ac nid oedd un amser yn methu eu cyfeirio i'r man y dymunent fyned iddo. Oedd, yr oedd y '*postman* dall,' fel y gelwid ef, yn awdurdod ar y llwybr hwnnw o'i ddechreu i'w ddiwedd. Gallai ei gerdded yn hamddenol yn oriau'r nos yn llawn hwylused a lliw dydd goleu. Ond pan elai, yn ddamweiniol, i ryw lwybr arall, yr oedd ei ddoethineb yn pallu. Rhaid fyddai iddo wrth arweinydd. Dyn yr un llwybr ydoedd. Nis gallai fyned allan o'i gylchdro cynnefin, ac nid oedd neb yn ei feirniadu am hynny. Gwyddid am ei anfantais bersonol, ac yr oedd yn syndod, o'r braidd, ei fod wedi meistroli ei anhawsderau, ac yn medru cyflawni swydd sydd yn gofyn am fanylwch a phrydlondeb gyda'r fath foddlonrwydd i'r cyhoedd.

II.

Y mae efe wedi myned i'w olaf daith er's talm o ddyddiau, a thebyg na fuasai dyn dall yn cael ei ddewis i'r swydd o lythyrgludydd yn y cyfnod hwn. A ydyw ei olynwyr yn y gwaith yn rhagori arno ef sydd yn gwestiwn nas gallwn ei benderfynu. Y mae'r 'dyn dall,' lawer pryd, yn gweled yn mhellach ac yn gliriach na'r sawl sydd a dau lygaid ganddynt, ond heb lawer o feddwl y tu cefn iddynt. Y 'rhywbeth' hwnnw sydd tu ol i'r synhwyrau corphorol sydd yn gwneyd y gwahaniaeth rhwng dynion a'r gilydd yn y fuchedd bresennol. Ond nid at hyny yr oeddym yn cyrchu, eithr at ystyriaeth arall. Onid oes llawer o bobl, wedi cyrhaedd aeddfed-

rwydd oedran, yn lled debyg i'r dyn dall? Nid yn ei ddallineb naturiol, bid sicr, ond yn y ffaith sydd yn weddol amlwg i'w cydnabod, os nad iddynt hwy eu hunain. Y ffaith ydyw hon—*dynion un llwybr ydynt.* Y maent wedi tramwy hwnnw mor fynych fel y gwyddant bobpeth am dano. Yn y peth hwn, nid oes un rheswm dros eu beio, eithr, yn hytrach, i'r gwrthwyneb. Ceir lluaws nas gwyddant, hyd sicrwydd, am un llwybr sefydlog mewn bywyd. Ni wyddant beth yw dilyn y llwybr. Cerddant yn afrosgo, ac yn ddireol, a mynych y gwelir hwy ar ddisberod. Y mae'r bobl y soniwn am danynt yn gwbl wahanol. Gwyddant am un llwybr, a gallant ei gerdded mor ddifeth a'r dyn dall yn ystod ei gylchdeithiau fel llythyr-gludydd.

III.

Ond, wrth aros yn wastad ar un llwybr, y mae rhyw ddosbarth yn myned i feddwl mai hwnnw ydyw yr *unig* lwybr y dylid ei gerdded. Ni fynnant gydnabod un llwybr arall. Ystyriant fod y sawl sydd yn tramwy llwybr gwahanol iddynt hwy yn cyfeiliorni, ag nad ydyw y gwirionedd ganddo. Dywedir yn Llyfr y Diarhebion fod 'doethineb' yn sefyll ar ben yr heol, lle y mae 'llwybrau lawer.' Nid un, ond llawer. Ac y mae 'doethineb' yn rhoddi cyfarwyddyd i gerdded yr oll. Dyna sydd yn cael ei awgrymu, fel y tybiwn, fod yna 'lwybrau lawer' yn arwain i ddinas gwirionedd. Ac eto ceir dynion da, ar lawer ystyr, sydd yn anghofio hyn, a bron yn ei wadu yn gyfangwbl. Yr ydych yn cael esamplau o'r peth hwn mewn byd ac eglwys. Mynych yr ydym yn cyfarfod a'r math yma o ddyn—dyn yr un llwybr. Chwi a'i gwelwch yn nghylchoedd yr eglwys. Y mae yn cerdded yr un llwybr drwy'r blynyddau. Dichon ei fod yn dduwinydd, i ryw raddau, ond nid oes cyfnewidiad na chysgod troedigaeth yn ei syniadau. Defnyddia yr un termau a'r un ymadroddion—yr hen dermau a fathwyd oesau yn ol. Nid ydyw gwisg ei feddyliau yn newid dim, ac nis gall ddygymmod ag unrhyw ddullwedd gwahanol. Erys fyth ar randir 'Pedwar Cyflwr Dyn,' a Chatecism 'Brown.' Dyn un llwybr ydyw; ac y mae hwnnw, iddo ef, yn meddu hydred a lledred neillduol. Y mae iddo 'glawdd terfyn,' chwedl Dewi Williams, ac nid ydyw un amser yn edrych y tu hwnt iddo. A phe y ceisid ei dywys i ryw lwybr newydd, ofer fyddai yr ymdrech. Wedi'r holl drafferth gwelid ei fod yn aros yn hollol yn yr un fan ag yr ydoedd ar y dechreu.

IV.

Ceir yr un 'caractor' yn nghylchoedd yr Ysgol Sul—Dyn yr un llwybr. Y mae ei ddull o holi ac ateb, yn gymhwys yr un fath ar hyd ei oes. Y mae ei syniadau ar ysbrydoliaeth y Beibl ac athrawiaethau yr Efengyl yn hollol ddigyfnewid. Nid ydyw cynydd gwybodaeth a dadblygiad gwirioneddau yn effeithio dim arno ef. Yn wir, y mae 'dadblygiad,' a geiriau cyffelyb, yn wrthnaws iddo. Crycha

ei ael pan ddefnyddir y geiriau hyn. Yr hen dermau ydyw ei hoffder ef—ac ni fynn gydnabod dim newydd. Ymffrostia yn y gosodiad ei fod yn 'hen ffasiwn,' a bod ei ymlyniad wrth y llwybr a gerddodd o'r dechreuad yn arwydd o wroldeb moesol. Dichon ei fod, ar ryw gyfrif, ond hawdd ydyw camgymeryd cyndynrwydd meddyliol am wroldeb.

V.

Yr ydym yn parchu dyn yr un llwybr mor bell a hyn—y mae ennill cydnabyddiaeth bersonol ag unrhyw lwybr da yn beth i'w fawrhau. Gwych odiaeth oedd gorchest y llythyr-gludydd dall. Yr oedd yn awdurdod ar y llwybr oedd iddo ef yn un pwysig iawn. Llwybr dyledswydd ydoedd. Felly yn nghylchoedd meddwl a bywyd. Y mae bod yn gyfarwydd ag un llwybr yn tybied ymdrech a dyfalbarhad. Y mae'r dyn a ddarllenodd Gatecism, neu waith duwinyddol, yn more cynar ei oes, i'w ganmol a'i edmygu. Ofnir fod llawer nad ydynt yn gwneyd cymaint a hynny yn yr adeg bresennol.

VI.

Yr hyn sydd yn difa defnyddioldeb 'dyn yr un llwybr,' mewn gwahanol gylchoedd, ydyw ei anhueddrwydd i gydnabod fod un llwybr heblaw yr eiddo ef yn bod. Ac wrth ymddwyn felly y mae yn gwneyd cam ag eraill—meddyliau o rywogaeth wahanol. Ac y mae yn fwy na thebyg ei fod yn gwneyd cam ag ef ei hun. Rhaid i'r sawl fo yn athraw neu yn arweinydd fedru ymgyfaddasu ar gyfer cyfnodau newyddion. Os amgen, cyll ei ddylanwad, ac ni fydd grym yn ei waith. Os ydym yn iawn gofio, cafodd y llythyr-gludydd dall ei ddodi ar restr y blwydd-daliadau. Yr oedd y wlad yn galw am ryw gyfnewidiad yn nghylch ei lafur—cymeryd cwrs gwahanol gyda dosbarthu'r llythyrau. Ond nis gallai yr hen bostman ffyddlon gyfarfod a'r alwad. Dyn yr un llwybr oedd ef. Nis gallai gerdded y llwybr newydd heb arweinydd, a buasai hynny yn tybied cael dau lythyrgludydd i wneyd gwaith un. Yr oedd pobl y fro yn cydymdeimlo a'i anffawd, ac yn falch fod y Llywodraeth yn estyn 'blwyddddal' iddo am y gweddill o'i ddyddiau. Ac onid ydyw meddwl yr oes yn galw am arweinwyr sydd yn abl i gerdded llwybrau newyddion? Dyna anfantais dyn yr un llwybr, yn mhob cylch; a gresyn na fuasai modd rhoddi 'blwydd-dal' iddo, fel y llythyrgludydd gynt, er mai anhawdd fuasai ganddo ei dderbyn.

VII.

Cafodd gair lled gyrhaeddgar ei ddweyd yn y Senedd, dro yn ol. Cyfeirio yr oedd y siaradwr at wleidyddwr lled amlwg, ac wedi bod yn aelod o Dŷ'r Cyffredin am ddeugain mlynedd. Ond, yn ol tystiolaeth y siaradwr hwnw, nid oedd y boneddwr wedi symmud

modfedd yn ei flaen. 'Y mae ei syniadau,' meddai, am dano, 'yn hollol yr un fath ag oeddynt ddeugain mlynedd yn ol.' Tystiolaeth gofiadwy, a difrifol hefyd, os yn hollol wir. Meddylier am ddyn yn treulio cynifer o flynyddau gyda gwleidyddiaeth, ac eto heb gynyddu dim—wedi aros yn yr unfan ar hyd ei yrfa. Yr oedd cwestiynau newyddion wedi codi, diwygiadau wedi dod i'r golwg; ond nis gwyddai efe ddim am danynt. Arhosai fel y 'grug yn y diffaethwch,' heb ddim 'gwyrddlesni na thwf' yn ei feddwl.

VIII.

Dyna berygl 'dyn yr un llwybr' yn mhob man. Y mae yn troi yn 'ffosil' mewn gwleidyddiaeth, llenyddiaeth a chrefydd. Chwi fuoch yn syllu ar y 'ffosylau' mewn Amgueddfa. Deilen, neu redynen, o bosibl. Bu adeg pan ydoedd yn ir ac yn hardd. Chwythai yr awel ar ei gruddiau. Disgynnai pelydrau haul ar ei gwedd. Yr oedd yn 'ddeilen werdd,' a'r gwanwyn yn siglo ei chryd. Ond, bellach, nid oes dim ond y ffurf yn aros. Y mae'r ddeilen wedi ymgarregu—wedi troi yn 'ffosil' yn nghesail y graig.

Ie, digon prudd yw hynyna—bywyd wedi ymado, a'r 'ffosil' yn cael ei gadw 'er cof' am y byd a fu. Ond, yn anffodus, y mae 'ffosils' i'w gweled yn feunyddiol, ac ni raid myned i unrhyw Amgueddfa i ymofyn am danynt. Ceir hwy mewn cylchoedd eglwysig a gwladol; mewn cynadleddau a phwyllgorau; yn y pulpud ac yn y set fawr. Dynion yr un llwybr, ac wedi troi yn 'ffosils' meddyliol.

IX.

O ba le y daw yr ymwared? Pa fodd y cedwir y sawl sydd yn teithio tua machlud haul rhag 'ymgarregu'? Nis gwyddom am un cyngor gwell, os cystal, na'r un a roddir gan R. H. Jones, yn ei lyfr awenyddol—'Drws y Galon.' A chyn cofnodi 'i gyngor ef, gadawer i mi grybwyll mai drws y 'galon' sydd yn agor pob drws arall yn enaid dyn. Nis gall drws y 'deall' fod yn gul os bydd drws y 'galon' yn llydan-agored. Dyna gyngor y bardd sydd yn gweled gweledigaethau, ac yn cerdded 'llwybrau lawer' yn ei ymchwil am danynt—'Ehanga dy gydymdeimlad.' Beth yw ystyr y cyngor? Y peth goreu i ni ydyw gadael i'r awdwr ei hun ei egluro. Dyma a ddywed—

Mae'th fyd yn rhy gyfyng, a'th fron yn rhy gul;
Ehanga dy gydymdeimlad;
Yn mhabell y nef y mae lle i bob dyn;
Yn dy babell fach di, dim lle ond i un!
Ehanga dy gydymdeimlad.

Wrth agoryd dy fron fe ddaw'r heulwen i fewn;
Ehanga dy gydymdeimlad;
Os methi wel'd rhinwedd yn ngwaith arall un,
Prawf hyny na feddi fawr rinwedd dy hun,
Ehanga dy gydymdeimlad.

Y trymaf o ddigon o feichiau y dorf
Yw diffyg cydymdeimlad ;
Rho ysgwydd dy gariad dan faich ambell un,
Fe ofala y nef am dy faich dy hun,
Os ehengi dy gydymdeimlad.

Dyna 'nod angen' y dyddiau hyn. Y mae cydymdeimlad yn 'ehangu' gwelediad dyn ac yn ei gymhwyso i ganfod dynion a gwirioneddau mewn goleuni newydd. Ac nid ydyw y sawl a welo felly yn heneiddio o ran ei ysbryd. Daw ystwythder i'w feddwl a hoen i'w galon. Nid dyn yr un llwybr a fydd, ond efe a dramwya lwybrau newyddion dan wlith y wawr, a gwel fod y 'llwybrau lawer' yn cydgyfarfod yn ninas Duw.

ANTHROPOS.

YMSON Y MYFYRIWR.

UN boreu, ychydig o ddyddiau yn ol, daeth llyfryn bychan i'm llaw gyda'r llythyr-gludydd. Nid oedd dim yn hynod yn hyn. Yr wyf yn derbyn llawer o lyfrau o bob math yn y fel hyn, gan y rhan fwyaf o'r rhai y mae cenadwri arbenig i'w dwyn i'm sylw. Tua'r un adeg a'r uchod, er enghraifft, cefais lyfryn bychan arall, cenadwri arbenig yr hwn oedd ceisio'm darbwyllo i fod yn Fahommetaniad. A gwisgai ei genadwri mewn dillad mor brydferth, fel, wrth ei ddarllen, y'm cymhellid i ddyweyd—"Y mae Mahommetaniaeth yn lawer amgenach crefydd nag y meddyliais i erioed ei bod"; ie, yn wir, o braidd na ddywedwn weithiau—"rhaid i Gristionogaeth ar ol hyn gymeryd yr ail sedd." Yr oedd y llyfryn y cyfeiriais ato gyntaf, fodd bynag, y tu allan i gwrs cyffredin pethau, ar gyfrif amryw resymau. Yn y lle cyntaf, yr oedd ei deitl yn hynod—

"A FU IESU GRIST YN BYW AR Y DDAEAR?"

Ond ni fyddai dim yn hynod yn y teitl onibae am enw awdwr y llyfryn. Yr wyf wedi darllen llawer o lyfrau yn dwyn teitlau o gyffelyb natur, amcan y rhai oedd profi na fu y fath berson a Iesu Grist, neu os y bu, nad oedd agos yr hyn y meddylir yn gyffredin ei fod. Ond anffyddwyr neu elynion Cristionogaeth a phob math o grefydd oedd awdwyr y rhai hyn. Dyma lyfryn wedi ei ysgrifenu gan weinidog, ie, gan weinidog iawnffyddol—gan un o weinidogion mwyaf poblogaidd un o'r enwadau iawnffyddol. "Yn sicr," meddwn, ar ol ei ddarllen,

"MAE'R BYD YN SYMUD

yn gyflym—i rywle ; pa un ai i oleuni gwell neu i dywyllwch duach nag ydym ynddo yn awr y mae yn amhosibl dyweyd ; ond y mae yn symud, ie, yn symud yn gyflym. Y mae'r cadwyni fuont yn sicrhau'r llong wrth yr hen angorfeydd yn tori, un ar ol y llall. Ac y mae perygl dygn i'r gadwyn olaf i dori heb yn wybod i ni, ac i'r llong gael ei gyru i ddanedd y creigiau, a chael ei dryllio."

Beth Geisia'r Awdwr Wneyd?

Tor i lawr y dyb fod y fath berson a Iesu Grist wedi bod ar y ddaear ; a phrofi nad yw cynwys y Testament Newydd ond ymgais i ddesgrifio'r Crist delfrydol, trwy glytio at eu gilydd ddarnau o'r Hen Destament ac o lyfrau crefyddau mawr y byd cyn y cyfnod Cristionogol. Wrth sylwi ar ei deitl, cyn ei ddarllen, ymresymwn ynof fy hun fel hyn—os na fu y fath berson a Iesu erioed ar y ddaear, y mae holl waith yr Eglwys Gristionogol yn ystod pedair canrif ar bymtheg ei hanes wedi ei sylfaenu ar ffug. Ac os llwyddiannus yw ymgais yr awdwr i brofi ei haeriad, rhaid rhoi pregethu Crist i fyny ; rhaid ymwrthod a'r ffug fod Iesu wedi byw fel y desgrifir yn yr Efengylau, neu yn debyg i'r fel y desgrifir ynddynt ; a rhaid i bob pregethwr (awdwr y llyfryn yn eu plith) godi i fyny yn ei bwlpud, a chyfaddef ei fod wedi camsynied. Ond ar ol darllen y llyfryn ni allwn lai na gweled ar ba sail wan y ceisia'r awdwr

Adeiladu Ty mor Fawr.

Ymddangosai ei ymgais yn debyg iawn i ymgais rhyw ddyrnaid o bobl yn ein dyddiau ni i brofi nad Shakespeare yw awdwr y chwareuaethau anfarwol gysylltir a'i enw, ond rhywun arall. Gwnaed y dyrnaid hyn eu goreu i ddiorseddu Shakespeare, ar ei orsedd yr erys, yn un o'r meddylwyr dysgleiriaf ymddangosodd erioed yn ffurfafen y byd llenyddol Saesneg. Yn yr un modd, gwnaed dynion eu goreu i ddiorseddu Iesu, ar ei orsedd yr erys, y dyn dwyfolaf sydd wedi ymddangos yn yr oll o'r byd dynol. Ymddengys yr haeriad gynygir i'n sylw gan awdwr y llyfryn yn un ffol-dybus, mympwyol i'r eithaf. Dyna, mi gredaf, fel y rhaid iddo ymddangos i bob dyn a edrycha ar y mater yn ddiragfarn. A chaniatau fod yn yr Efengylau lawer o'r chwedlonol; fod ynddynt gamsyniadau hanesyddol; ac y ceir ynddynt syniadau anymarferol a chyfeiliornus. Ymddengys i mi y rhaid i ni ganiatau hyn, oherwydd heb ganiatau hyn fe gwrddwn ag anhawsderau ynddynt nad yw bosibl eu gorchfygu. Nid yw dyweyd hyn yn un sarhad ar yr Efengylau ; oherwydd llyfrau o waith dynion ydynt, tebyg i ddynion ereill. A phan yr ymgymerasant ag ysgrifenu hanes eu Hathraw lawer o flynyddau ar ol ei groeshoeliad, nid yw ond naturiol i ni i ddisgwyl fod yn yr hanesion hyn lawer o'r chwedlonol, lawer o gamsyniadau hanesyddol, lawer o syniadau cyfeiliornus ac anymarferol. Rhaid yw i ni gydnabod hyn, oddieithr ein bod yn glynu wrth yr hen syniad eu bod wedi eu hysgrifenu gan ddynion

oeddent dan gyfarwyddyd ac ysprydoliaeth uniongyrchol, eithriadol Duw. Y mae'r dyb olaf hon, i bob meddwl diwylliedig, heddyw yn amhosibl. Ond ar ol cydnabod hyn, y mae yn un o'r pethau mwyaf amhosibl i feddwl fod y llyfrau hyn

WEDI EU SYLFAENU AR DDIM—

nad oedd dim un personoliaeth uchel tu cefn iddynt—na fu y fath berson a Iesu erioed yn rhodio daear Palestina—nad yw cynnwys yr Efengylau ond ymgais i ddesgrifio'r dyn delfrydol trwy ddwyn at eu gilydd ddarnau llenyddol o wahanol ffynhonellau. Y mae yn amhosibl, i mi o leiaf, i gredu hyn. Na, y mae yr Efengylau yn dwyn nodau hanes diledryw—ymddangosant fel ymgeisiadau didwyll i ddesgrifio bywyd person gwirioneddol, ac nid eiddo person dychmygol, fel mewn chwedl. Trwy'r drych, aneglur efallai, ond eto digon eglur i bob dyben ymarferol,

FE WELWN Y DYN CRIST IESU,

yr hwn a anwyd ac a fagwyd fel plant ereill, yr hwn fu yn gweithio er enill ei gynhaliaeth fel dynion ereill, yr hwn a ymddangosodd ar adeg gythryblus yn hanes ei genedl, yr hwn a gyffrowyd gan ei deimlad gwladgarol i fyned allan i achub ei genedl, yr hwn a roddodd fynegiad i egwyddorion ac a roddodd amlygiad i yspryd ydynt yr egwyddorion a'r yspryd goreu i gymdeithas, yr hwn fu byw mewn cymundeb agos ag yspryd llywodraethol y cread, yr hwn a gafodd weledigaeth o'r bywyd dynol yn ei agwedd uchelaf a dwyfolaf drwy ei fywyd ei hun, a'r hwn a roddodd ei fywyd yn y diwedd ar allor dyledswydd ar y groes. Y mae yn rhaid cael llawer cryfach rhesymau dros ollwng ein gafael yn y person hwn nag a gynygir i'n sylw yn y llyfryn y soniwyd am dano ar y dechreu.

MYFYRIWR.

Y "SUSTENTATION FUND."—Bydd yn bleser gan bawb o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD i ddarllen fod y cais i sicrhau haner can mil o bunau at y Drysorfa uchod wedi llwyddo. Mae'r arian i gyd yn y golwg os nad mewn llaw. Nid ydym yn gwybod a ydyw Cymru yn foddlon ar yr hyn a wnaeth. Gwnaeth rhai yn dda ; gallai rhai feallai wneud yn well. Fe fydd eglwysi'r enwad yn well, gobeithiwn o'i blegid. Nid da newynu hyd y nod y pregethwr. Mae wedi ei gadw yn isel lawer pryd. Fe ddywed Paul mai teilwng i'r gweithiwr ei gyflog. Teimlwn yn ddiolchgar i'r ychydig bobl ffyddlon, yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfranu yn ol eu gallu. Gobeithiwn y gwna y rhai nad ydynt, yn gynar neu yn ddiweddar anfon eu cyfran i fewn fel "conscience money."

Y PERERINION DADAU.

Y mae hanes y Pererinion Dadau yn ddyddorol a gwir ddyrchafol. Yr oeddynt yn enwog am ddau beth—eu Protestaniaeth a'u Piwritaniaeth. Safent yn gadarn yn erbyn trawsarglwyddiaeth ysprydol eu dydd ac hefyd yn erbyn yr anfoesoldeb a ffynai yn ein gwlad. Am eu bod yn ceisio rhodio'r "llwybr cul," cyhuddid hwynt o gulni, ac y mae lle i ofni nad yw y cyhuddiad hwn eto wedi llwyr ddiflanu. Yr oeddynt wedi dysgu gwersi celyd

Yn Ysgol Adfyd.

Yr oedd eu rhieni wedi byw o dan deyrnasiad Mari Waedlyd, pan oedd erledigaeth yn anterth ei chreulonder yn ein gwlad, ac y llosgwyd wrth y ystanc rai o bobl oreu y cyfnod. Daeth pethau dipyn yn well yn amser y Frenhines Elizabeth; ond eto ni fwynheid rhyddid crefyddol yn yr ystyr a roddwn ni i'r frawddeg. Yr oedd heddwch i'r cyfryw a gydffurfient yn fanwl a chredo yr Eglwys Sefydledig ac a dderbynient ei defodau; a dyna i gyd. Yr oedd llawer o bobl ar hyd y wlad nad allent ymuno yn gydwybodol mewn addoliad fel yr awdurdodid ef gan y wladwriaeth; a chyfarfyddent yn nhai eu gilydd i gyd-weddio a rhoddi a derbyn addysg grefyddol. Yr oedd cynulleidfa gyfan o'r fath bobl yn Llundain yn amser y Frenhines Elizabeth. Yr oedd hefyd gymdeithasau o Anghydffurfwyr yn y wlad. Ar yr amser hwn nid oedd yr eglwysi plwyfol ond cam bychan o Eglwys Rhufain. Trodd y rhai oeddynt wedi gwasanaethu fel offeiriaid Pabaidd yn nheyrnasiad Mari yn weinidogion Protestanaidd o dan Elizabeth. Nis gallai y mwyafrif o honynt bregethu, ac ni chynygient wneud hyny. I'r cyfryw ag oeddynt wedi eu meddianu a'r ysprydol Protestanaidd yr oedd eu gwasanaeth yn amddifad o bob adeiladaeth; ac felly dewisent ymgynull yn ddirgel i addoli Duw yn ol argyhoeddiadau eu calonau. Yna dechreuodd yr Eglwys Wladol erlid yr Anghydffurfwyr. Cafodd Barrowe a Greenwood, dau o'u blaenoriaid mwyaf enwog eu gosod i farwolaeth yn Tyburn ar ol bod yn y carchar am amser maith. Ond dros feddau'r merthyron y gorphwys llwybr y gwirionedd. Fel y dywed y bardd Lowell—

"Er i anghyfiawnder lwyddo,
Gwir yn unig nerthol yw,
Er ei ran fo'r Groes a'i gwarthrudd,
Ac fod Anwir wrth y llyw;
Eto rhaid i'r Groes orchfygu,—
A thu hwnt i olwg dyn,
Saif y Duwdod yn y cysgod
Fyth yn gwylio'i eiddo'i hun."

Un o gymdeithasau anghydffurfiol mwyaf pwysig yr amser hwn oedd yr hon a gyfarfyddai yn ddirgel yn nhy William Brewster yn mhentref Scrooby, lle y cydffinia swyddi York, Lincoln a Nottingham. Cangen oedd hon o gymdeithas henach yn Gainsborough yr hon a arweinid am rai blynyddau gan John Smyth, yr hwn yn y diwedd orfu ddianc i'r Iseldiroedd o herwydd erledigaeth. Yn mhlith yr addolwyr yn Scrooby yr oedd llanc o'r enw

William Bradford,

yr hwn yn ddiweddarach a wnaed yn Llywodraethwr Lloegr Newydd. Prif arweinyddd y mudiad oedd William Brewster. Pan yn America cafodd yr ysgrifenydd yr anrhydedd o gyfarfod a disgynyddion y ddau wr rhagorol hyn. Oddeutu y flwyddyn 1590 daeth Richard Clyfton yn weinidog i'r gymdeithas yn Scrooby, a chai i'w gynorthwyo yr enwog John Robinson yr hwn oedd ysgolhaig gwych ac wedi derbyn ei addysg yn

Mhrifysgol Cambridge. Am yn agos i ugain mlynedd bu y gymdeithas dan erledigaeth barhaus, ac o'r diwedd teimlai'r aelodau nad allent fyw mwyach yn y wlad hon. Yn 1607 penderfynasant fyned i Holland lle yr oedd llawer o'u cyd-gredinwyr wedi ymfudo yn barod. Tra yn cario allan yr anturiaeth hon gwelsant galedi mawr. Yn gyntaf oll cytunasant am long i'w dwyn o Boston yn Swydd Lincoln i Amsterdam, a phan oeddynt hwy, eu teuluoedd a'r ychydig gyfoeth a feddianent i gyd ar y bwrdd, bradychodd y capten hwynt i ddwylaw eu gelynion. Yspeiliwyd hwynt o'r oll oedd ganddynt, a chawsant eu trin yn y modd mwyaf creulon. Yn nesaf cytunasant a chapten o Holland i'w cludo drosodd i'r wlad hono, a phan yr oedd y gwyr bron i gyd ar y bwrdd yn barod i dderbyn eu gwragedd a'u plant y rhai oeddynt ar fin ymuno a hwynt gwelsant fintai fawr o wyr arfog yn brysio ar eu hôl. Hwyliasant allan i'r môr gan adael eu teuluoedd dan ofal eu bugeilaid ffyddlon yn y rhai yr oedd ganddynt bob ymddiried. Wedi llawer o ddioddefiadau, llwyddasant oll i gyrhaedd Amsterdam, yr hon oedd ar y pryd yr unig ddinas yn y byd lle y mwynheid rhyddid crefyddol. Yn 1581 yr oedd y penadur rhyddfrydig Gwilym Dawel – William the Silent – wedi gwneud deddf na fyddai cyffes agored o grefydd ddwyn niwed neu rwystr i neb. Ymdyrai meddyliau goreu pob gwlad yr amser hwnw i Amsterdam fel y gallent addoli Duw yn ol argyhoeddiadau mwyaf didwyll eu calonau. Pan ymsefydlodd pobl Scrooby yn Amsterdam cawsant fod Anghydffurfwyr Llundain wedi myned yno yn barod ar gyngor

JOHN PENRY,

yr hwn a gafodd ei osod i farwolaeth yn Tyburn yn 1593. Ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth anfonodd y Cymro Dewr hwn genad i'w gyfeillion yn eu hanog i adael eu gwlad gan nad oedd un gobaith am ryddid gartref. O herwydd amryw achosion penderfynodd John Robinson a'i ganlynwyr o Scrooby symud o Amsterdam i Leyden lle yr oedd yr awyrgylch feddyliol, ar gyfrif fod Prifysgol enwog yno, yn fwy cydnaws a'u chwaeth. Cawsant ganiatad yr awdurdodau i wneud hyny yn 1609, a dwy flynedd yn ddiweddarach—1611, pan y cyhoeddwyd y Cyfieithiad Awdurdodedig o'r Beibl yn y wlad hon symudasant i Leyden lle yr arosasant am naw mlynedd gan gymeryd rhan yn ngwahanol orchwylion y ddinas. Yr oedd yr eglwys yn flodeuog ac yn rhifo tri chant o aelodau heblaw gwrandawyr. Am eu bywyd yn ninas Leyden dywed William Bradford :—"Trigent yn nghyd mewn cariad a thangnefedd eu holl ddyddiau braidd yn llwyr heb anghydfod. * * * Yn eu plith yr oedd llawer o wyr teilwng a galluog y rhai a fuont fyw ac a fuont feirw mewn dinodedd mewn perthynas i'r byd, fel Cristnogion cyffredin, ond eto yr oeddynt yn werthfawr yn ngolwg yr Arglwydd ac hefyd yn ngolwg y cyfryw a'u hadwaenent."

Rhaid i ni gofio mai Piwritaniaid oedd y bobl hyn a'u bod yn cefnogi yr hyn oedd fwyaf aruchel ac anrhydeddus mewn bywyd. Yr oedd llawer o arferion y bobl yn mhlith y rhai yr oeddynt yn byw yn atgas iddynt. Cawsai rhai o'u plant eu harwain i ffyrdd drwg gan esiampl isel eu cymydogion, ac yr oedd holl dôn bywyd cymdeithasol yn Holland yn anghydnaws a'u cydwybod. Heblaw hyny yr oedd y deuddeg mlynedd o heddwch rhwng Holland a'r Yspaen yn tynu i'w terfyn ac yr oedd yn bosibl y byddai pethau wedi hyny yn waeth na'r erledigaeth oeddent wedi ddioddef yn y wlad hon. Teimlent eto mai Prydeinwyr oeddent ; a chan na allent ddychwelyd i'r hen wlad, penderfynasent sylfaenu

LLOEGR NEWYDD—

New England—tu hwnt i'r môr, Eto yr oedd rhwystrau blin ar eu ffordd. Oddeutu yr amser hwnw hwyliodd llong i diriogaeth Virginia

gyda naw ugain o bobl ar ei bwrdd ond ni chyrhaeddodd ond haner cant o honynt y wlad newydd. Bu farw y gweddill o chwech ugain a deg ar y fordaith. Er hyn oll penderfynasant fyned—nid i Virginia ond sefydliad a enwyd Plymouth yn nes i'r Gogledd. Aeth y cyfryw o honynt a ewyllysient fyned yn gyntaf i barotoi lle i eraill o Holland i Plymouth yn Swydd Devon yn Haf 1620, i uno a'u cyfeillion o Loegr y rhai oeddynt yn awyddus i gymeryd rhan yn yr anturiaeth. Rhifai'r oll chwech ugain. Yr oedd pedwar ugain a deg i hwylio yn y "Mayflower." Yn anffortunus nid oedd y "Speedwell" yn ddiddos, a gorfu iddi gael ei chyweirio, yr hyn a aeth ag amser. Hwyliodd y ddwy long o harbwr Plymouth Medi 6ed, 1620; a phan oeddynt wedi myned oddeutu tri chan milltir heibio Pen Tir Lloegr, dechreuodd y Speedwell ollwng dwfr. Gorfuwyd ei danfon yn ol i Loegr, a dychwelodd gyda hi ddeunaw o'r teithwyr y rhai oeddynt yn barod wedi gwangaloni. Trosglwyddwyd y deuddeg ereill at y pedwar ugain a deg ar fwrdd y Mayflower yr hon oedd yn barod yn orlwythog.

Wedi'r digwyddiad hwn aeth pob peth yn mlaen yn foddhaol nes yr oeddynt wedi myned haner y ffordd yn groes i Fôr y Werydd. Yna ysgubodd ystormydd yr Hydref drostynt gyda'r fath gynddeiriogrwydd fel y tybient nad oedd dim yn eu haros ond dyfrllyd fedd. Ond er mor ofnadwy oedd eu cyflwr, dim ond un o'u nifer a fu farw yn ystod y fordaith. Bwriadent lanio ar ynys Manhattan lle saif New York yn awr, ond mae yn debyg i'r capten gael ei lwgrwobrwyo am gadw i bant oddiyno gan ei fod yn barod wedi ei feddianu gan y Dutch. Y tir cyntaf a welsant oedd Cape Cod; ac felly yr oeddent yn barod i lanio yn yr ardal hono, mor gynted ag y darganfyddasant fan cyfaddas i ymsefydlu arno. Pan osodasant eu traed ar dir, dywed yr hanesydd iddynt

SYRTHIO AR EU GLINIAU

a bendithio Duw'r nefoedd yr Hwn oedd wedi eu dwyn dros y cefnfor garw a llydan ac wedi eu gwaredu o'u holl beryglon a'u trallodion." Heb gyfrif eu taith o Holland i Plymouth, a'r amser a dreuliasant yno, buont rhwng naw a deg wythnos ar y môr; a chan eu bod mewn llong hwyliau fechan yn yr hon o'r braidd yr oedd ganddynt le i droi, rhaid fod yr wythnosau hyn yn anghysurus iawn. Yn gyntaf anfonwyd unarbymtheg o wyr i dir, a glaniasant ar Graig Plymouth, yr hwn a ystyriwn yn lle cysegredig iawn. Yr oedd yr holl diriogaeth yn anialwch yr amser hwnw, gyda'r eithriad fod yr Indiaid wedi arllwys y tir yma ac acw, i hau eu cnydiau ynddo. Yr oedd brodorion y gymydogaeth wedi marw i gyd o ryw glefyd, ychydig flynyddau yn flaenorol, ac felly yr oedd y Pererinion Dadau yn alluog i ymsefydlu yno heb deimlo eu bod yn trawsfeddianu eiddo neb. Gwnaethant ddefnydd o bob cyfle i ddyfod i gyffyrddiad a'r Indiaid ychydig yn nes i mewn i'r wlad, ac ar y cyntaf ymddangosent yn gyfeillgar. Ond gan eu bod yn gwybod yr hyn oedd ereill wedi ddioddef ar law y brodorion, yr oeddynt yn barhaus ar eu gwylirdwriaeth. Pan wnai yr Indiaid ymosodiad ar yr ymfudwyr, cylchynent hwynt yn ddistaw ac yna gwnaent swn tebyg iawn i wylanod mewn ystorm ar lan y mor. Fel ag wyf wedi sylwi mewn erthygl arall yr oedd y creaduriaid rheibus hefyd yn bethau i'w hofni. Yr amser hwnw nid oedd y blaidd wedi llwyr ddiflanu o'r wlad hon, a gwyddai y Pererinion faint y difrod a allai wneuthur. Clywent ruadau'r bwystfilod yn y nos, a gwelent eu llygaid yn ymddisgleiro drwy'r tywyllwch. Gwelent ol y Puma yn dringo'r coedydd yn barod i neidio ar ei ysglyfaeth, bydded ddyn neu garw; a phan ymlwybrent drwy'r goedwig clywent y seirff yn chwythu arnynt. Ond yr oedd gofidiau lawer trymach yn aros y Pererinion. Y flwyddyn gyntaf bu

HANER EU NIFER FARW

mewn canlyniad i'w hir fordaith a'u tlodi ar ol hyny. Troisant y tŷ cyntaf a godwyd ganddynt yn glafdy. Yr oedd yn sefyllfa alarus iawn. Pan gyrhaeddasant America yr oedd yn agos i ddiwedd y flwyddyn, ac felly dioddefasant lawer oddiwrth yr oerni, pan nad oeddynt mewn cyflwr i'w orchfygu. Y gwragedd a'r plant oeddynt y cyntaf i syrthio, ac yna clafychodd a bu farw llawer o'r gwyr. Y peth hynotaf yw i'r rhai adawyd gadw eu hysprydoedd i fyny drwy'r cyfan, ac felly ddangos dewrder diail. Teimlent fod Duw gyda hwynt yn eu horiau mwyaf tywyll, ac yr oeddynt yn alluog i ymgynal dan y cyfan. Meddylier am unigrwydd eu sefyllfa. Yr ymsefydlwyr Ffrengig oddeutu pum can milltir i'r Gogledd, oeddynt eu cymydogion agosaf, ac yr oedd yr ymsefydlwyr Prydeinig yn Virginia yr un mor ddifudd iddynt mewn achos o galedi. Nis gallent eto gyfrif yr Indiaid yn gymydogion gan na wyddent ddim am fywyd gwareiddiedig. Er hyny amlygodd un o honynt, Tisquantum wrth ei enw, garedigrwydd mawr drwy ddangos i'r Pererinion pa fodd i drin y tir, a pheth a dyfai oreu ynddo.

Ar ol yr hyn a elwid wedi hyny yr afiechyd cyntaf, dim ond un-ar-hugain o wyr mewn oed, a chwech o lanciau yn tyfu i fyny oedd ar ol. Gwragedd a phlant oedd y gweddill y rhai oedd yn rhaid amddiffyn yn barhaus. Y Gwanwyn cyntaf ar ol eu glaniad collasant John Carver yr hwn oeddynt wedi apwyntio yn Llywydd ; ac yn fuan ar ol hyny bu farw ei wraig Katherine. Gorphwys ei llwch yn mynwent yr Eglwys Undodaidd yn Plymouth. Eu Llywydd nesaf oedd William Bradford, yr hwn oedd hefyd Lywydd cyntaf Massachusetts. Yn fuan ar ol marwolaeth John Carver daeth llythyr iddo oddi-Gwmni y Merchant Adventurers—yr Anturiaethwyr Masnachol—yn grwgnach nad oedd y Pererinion wedi anfon yn ol ddigon o drysor gyda'r Mayflower ar ei dychweliad ! Daeth y llythyr hwn gyda'r llong a elwid Fortune, yr hon a laniodd ar yr un pryd bump ar hugain o ymsefydlwyr newydd. Atebwyd y llythyr hwn yn bwrpasol iawn gan William Bradford yr hwn a ddywedai am ei gyfaill :—"Am dano ef, y mae wedi ymadael a'r bywyd hwn, ac y mae yn awr yn gorphwys yn yr Arglwydd, yn rhydd oddiwrth bob gofidiau a rhwystrau y rhai y mae yn rhaid i ni eto frwydro yn eu herbyn. Nid oes eisieu i mi wneud un esgusawd drosto gan ei fod wedi anghofio pob hunan-les, a byrhau ei ddyddiau yn ei ymgais i ddyrchafu'r byd."

Yn mhen dwy flynedd ar ol glanio yr oedd gan y Pererinion achos i ofni y byddai i'r Indiaid wneud ymosodiad arnynt. Cyrhaeddodd y newydd fod tri chant a saith a deugain o ymsefydlwyr Prydeinig yn Virginia lle yr oedd eu cartrefi yn wasgaredig wedi eu lladd gan Indiaid yr ardal. Yr oedd y Pererinion wedi derbyn rhybudd fod yr un ffawd yn eu haros hwythau. Heb oedi ymgymerasant a'r gwaith o wneud amddiffynfeydd o amgylch eu tai, a ffurfiasant fyddin fechan o haner cant o dan lywyddiaeth Miles Standish. Oddeutu'r amser hwn bu farw Tisquantum eu cyfieithydd Indiaidd. Cyn iddo ymadael â'r byd gofynodd i William Bradford, yr hwn a ddangosodd bob tynerwch iddo, weddïo drosto am i'w enaid gael myned i nefoedd y Prydeinwyr. Indiad cyfeillgar arall oedd Massasoit, yr hwn oedd benaeth ei lwyth. Pan ddaeth y newydd ei fod ar dranc angau aeth y Pererin enwog Edward Winslow gyda chyfieithydd i ymweled ag ef. Anfonodd ymaith y meddygon brodorol y rhai a'i cylchynent gyda phob math o ddewiniaeth, a rhoddodd iddo feddyginiaeth syml yr hon a'i hadferodd i'w iechyd. Ar ol ei wellhad dywedai'r penaeth :—"Yr wyf yn awr yn gweled fod y Prydeinwyr yn gyfeillion i mi ac yn fy ngharu a thra byddaf byw nid anghofiaf y caredigrwydd hwn y maent wedi ddangos tuag ataf."

O ddiolchgarwch am yr hyn a wnaed drosto rhybuddiodd y gwr hwn ei gymwynaswyr, fod cydfradwriaeth ar droed i'w llwyr ddifetha ; a bu y

rhybudd o wasanaeth mawr iddynt.

Gorphenasant yr amddiffynfa oeddynt wedi ddechreu ddeg mis yn flaenorol, ac wedi cospi blaenoriaid y bradwyr teimlent yn weddol ddiogel. Defnyddient yr amddiffynfa fel lle o addoliad hyd 1640, pan y gwnaethant adeiladu eglwys gerllaw. Mae yr eglwys hono, fel llawer o'r hen Eglwysi Ymneilldduol yn y wlad hon wedi ymddadblygu yn Eglwys Undodaidd.

Am ddwy flynedd a haner perchenogai y Pererinion eu heiddo yn gyffredin, mor bell ag yr elai cyfoeth materol. Yn Plymouth gwnaed prawf ar Gyd-feddiant dan amgylchiadau eithriadol o flafriol mewn cymdeithas o bobl sobr, weithgar a duwiol; ond fel y dywed un hanesydd "Yr oedd yn mhell o fod yn llwyddianus a gwnai arwain i derfysg ac anfoddlonrwydd, gwnai atal cynyrch llafur, a rhoddai anogaeth i ddiflasdod a segurdod." Nid oedd yr hyn ystyrid yn eiddo pawb yn eiddo neb, ac ni chymerai neb wir ddyddordeb ynddo. Yn 1623 newidiasant eu ffordd o fyw. Rhoddwyd darn o dir yn y cyfartaledd o erw i bob person, i bob teulu, a chan fod rhai darnau yn rhagori ar ereill penderfynid pwy oedd i'w cael drwy daflu coelbren. Bu y cyfnewidiad yn fendithiol iawn i'r Cyfundeb. Gweithiai hen ac ieuanc gydag ewyllys a chynyrchwyd llawer rhagorach cnydiau nag o dan yr hen gyfundrefn. Cyn cynauaf 1623 gwelsant brinder mawr am ddau neu dri mis. Nid oedd ganddynt fara nag un math o flawd, ac nid oedd dim i'w wneud ond byw fel y gallent ar helwriaeth a physgota. Er hyny, gan nad pa mor brin oedd eu lluniaeth ni pheidiasant ddiolch i Dduw.

Unwaith eto bygythid a chaethiwid y bobl yma, ag oeddynt wedi gwneud y fath aberth arddercho dros ryddid. Gwnaed ymdrech i'w gosod dan lywodraeth esgobaethol — y peth ag oedd wedi ei gyru o'r hen wlad Er hyny, gan fod y Pererinion yn bobl ddewr, y rhai oeddynt barod i ufuddhau i'w cydwybodau er pob cost, gwrthwynebasant allu'r offeiriad, a llwyddasant i gadw eu rhyddid. Gwnaethant hefyd brynu eu rhyddid fel gwladfa fel nad oeddynt mwyach dan awdurdod un cwmni masnachol. Saith mlynedd ar ol sangu ar dir America yr oeddynt yn

BOBL RYDD.

Llwyddodd y wladfa yn fawr. Ymunodd llawer a hwynt o'r wlad hon fel yn 1634, yr oedd sefydlwyr y wlad a elwid ar ol hyny yn Dalaeth Massachusetts yn rhifo pedair mil. Trigent mewn oddeutu ugain o bentrefi yn benaf ar lan Bau Boston. Cynhelid gwasanaeth crefyddol yn y lleoedd hyny gan wyr dysgedig y rhai oeddynt wedi graddio yn Rhydychen a Chaergrawnt. Yn 1647 yr oedd pedwar ugain a deg o'r cyfryw yn y wladfa.

Pan gymerodd Oliver Cromwell awenau'r llywodraeth yn y wlad hon boddlonid y Piwritaniaid fel na ewyllysient mwyach ymuno a'u brodyr hwnt i'r mor. Felly am dymhor rhoed terfyn ar yr awydd i ymfudo. Yn amser Cromwell rhifai trigolion y wladfa chwe' mil ar hugain.

Y tro hwn ni ddilynaf y Pererinion Dadau yn mhellach. Digon yw dweyd i'r Werin-lywodraeth fawr Americanaidd gyda'i phoblogaeth o yn agos i gan' miliwn gael ei sylfaenu gan y dewrion hyn y rhai a adawsant oll er mwyn cael meddianu y fendith o ryddid cydwybod. Y mae rhai yn ceisio bychanu gwaith Anghydffurfiaeth. Ond yma, yn hanes y Pererinion Dadau cawn brawf o'i gallu. Y mae yr Americaniaid yn teimlo yn falch o'u hynafiaid, a dysgant eu plant i barchu eu coffadwriaeth, ac efelychu eu hesiampl. Felly cedwir eu hyspryd yn fyw yn y genedl. Y mae genym ninau ein harwyr yn y wlad hon —

GWYR FEL CROMWELL —

apostol rhyddid gwladol, a Dr. Priestley — apostol rhyddid crefyddol. Parchwn eu coffadwriaeth drwy fod yn ffyddlon i'r egwyddorion oeddynt yn anwyl iddynt hwy.

E. CEREDIG JONES.

CLOFFI RHWNG DAU FEDDWL.

[PARHAD].

'E FYN RHAI FOD Y BEIBL

wedi gorphen ei waith yn y byd—*played out* yw'r ymadrodd Saesneg—ac Iesu wedi myned yn ddim amgen na dyn mud yn nghanol baldordd ac ymffrost lleisiau amrywiol ac aflafar yr oes. Yr oedd ynfydion yr oesoedd gynt yn ddigon dwl i ddywedyd yn eu calon—yn eu calon sylwer,—Nid oes un Duw; ond y mae ynfydion yr oes hon yn ddwlach fyth, ac yn esgyn i benau tai i gyhoeddi eu hynfydrwydd ac i ddywedyd,—Nid oes un Duw! "Na thwyller chwi, ni watworir Duw, canys pa beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe." Y mae y Beibl, sydd wedi llanw lle mor fawr yn hanes y byd, yn cychwyn eto ar ymdaith newydd. Gyda goleuni newydd ar ei darddiad a'i dyfiant, mae yn myned i enill parch newydd a dylanwad newydd, ac i ychwanegu yn ddirfawr at ei werth moesol, ac at rif ei fuddugoliaethau ar faes crefyddol y byd. Nid yw y Beibl i fyned yn llythyren farw yn fuan, oddi eithr gyda phobl tebyg i'r rhai y gofynodd Elias iddynt,—Pa hyd yr ydych yn cloffi rhwng dau feddwl? *Played out* yn wir! Mae gan y byd lawer o waith eto i ddyfod i fyny ag egwyddorion y Beibl. "Deuwch yr awrhon, ac ymresymwn, medd yr Arglwydd: pe byddai eich pechodau fel ysgarlad, ânt cyn wyned a'r eira, &c.—Ymolchwch, ymlawenhewch, bwriwch ymaith ddrygioni eich gweithredoedd oddi ger bron fy llygaid: peidiwch a gwneuthur drwg, dysgwch wneuthur daioni: ceisiwch farn, gwnewch uniondeb i'r gorthrymedig, gwnewch farn i'r amddifad, dadleuwch dros y weddw." *Played out* yn wir. Ni fyddai'r byd na phobl y byd buryn gwaeth o gymeryd aml i ddogned o'r yspryd sydd yn y geiriau hyn. Nid y feddyginiaeth sydd wedi fflato, nid y Beibl sydd wedi gorphen ei waith; eithr y dynion sydd wedi myned i glywed y byd, y byd yn siarad, wedi ym-fyd-oli ac ym-fammon-eiddio, wedi syrthio i oerfelgarwch a difaterwch a myned i esgeuluso'r moddion a'r meddyg. Gwneler y defnydd iawn o'r Beibl a cheir ynddo eto y feddyginiaeth angenrheidiol i wella clefydau'r oes. Bendith fwyaf posibl cymdeithas fyddai cynefindra mwy ymarferol ag egwyddorion y Beibl, ac ymddynesiad mwy byw at yspryd yr Iesu hwnw, a allai fod eto, pe caniateid iddo, yr athraw a'r arweinydd diogelaf i ni dros ddyrys a dreiniog lwybrau ein bywyd daearol. Nid yw ei lais wedi myned yn fud, na'i bregeth yn llythyren farw oblegid fod ei ragorach wedi ei gael. Dim o'r fath beth; dynion sydd a'u llygaid wedi dallu, a'u clustiau wedi merwino, a'u calonau wedi brasâu, fel na fynant weled, na chlywed, na theimlo, ond a fyddo ar hyd llinell eu hunan-gais personol. Motto rhai o hyd yw:—Y cwbl i fi, a'r gweddill i John fy mrawd. Gwanaf gwaedded, trechaf treisied, yw yr hen reol rhy gyffredin sydd yn aros hyd heddyw. Camsyniad yw tybied fod crafangau y llew a'r arthes yn y galon ddynol wedi ei symud ymaith. Gallant fod wedi gwisgo menyg. Nid yw y sarff yn llai sarff oblegid fod ei cholyn wedi ei dynu ymaith. Gall yr hen yspryd fod yn fyw o hyd.

NA, NID YW GWAITH IESU

ar ben eto; nid yw fod y byd wedi cael gafael ar ei well ond breuddwyd gwael, neu hunllef poenus. *Played out.* A oes rhywun mor ynfyd a thybied fod cymdeithas wedi ei thrwytho'n ddigonol ag yspryd goreu'r hen Feibl? A oes rhywun

yn meddwl fod digon o yspryd yr hunan-ymwadiad, yr hunan-aberth, a'r cariad anherfynol a gawsant amlygiad mor ogoneddus yn mywyd prydferth Iesu Grist—fod digon o'r yspryd hwn yn dylifo yn ngwythienau cymdeithas yr oes hon?

Cymered yr hanesydd, yn hytrach, cymered y seryddwr hanesyddol yr yspienddrych mwyaf nerthol a fedr gael mewn llaw, a chyfeiried ef yn ol dros faes eang dynoliaeth, ar hyd llinell canrifoedd y gorphenol, ac fe wel, ond odid, lawer o athrawon crefyddol, o lawer oes a llawer gwlad – megys Moses ac Esaiah, Eseciel a Jeremiah, &c., yn mhlith yr Iuddewon; ac ar y maes ethnig, Confucius a Laotze, Zoroaster a Gautama Bwda, a Mohamet, gyda llu mawr yn ychwaneg – ser dysglaer yn ffurfafen crefydd, nad oes eisieu dibrisio eu gwasanaeth ardderchog, na gwrthod iddynt ein hedmygedd a'n diolch; eto credwn mai *ser* ydynt yn mhresenoldeb Iesu, yr *haul* mawr, haul y cyfiawnder yn y ffurfafen ysprydol—athrawon dysglaer ac arweinyddion ardderchog at Iesu. Na, nid yw'r byd

WEDI CAEL DIGON AR IESU,

nac wedi gweled neb eto i gymeryd ei le. Saif ef yn ddigon o'r blaen—yn uwch, yn well, yn rhagorach, na neb ydym wedi weled hyd yma—ie'n *Facile Princeps.*

MYN RHAI FOD EI WELL YN BOSIBL.

Beth all fod yn yr arfaeth dragwyddol nis gwn ac ni'm dawr; ond hyn sy sicr,—Ein doethineb uwchaf ni yn awr yw ceisio dilyn Iesu—y goreu sy gyda ni. Hyd yma nid ydym yn gwybod fod môr mawr ysprydolrwydd y Tad goreu wedi cyrhaedd llanw mor uchel yn neb arall, ac felly hyd yma nis gwyddom am un arweinydd y gallwn ymddiried mor gwbl ddibryder ynddo.

Fe dybia rhai fod y

BYD ERBYN HYN YN DDIGON HEN

i fyw nid yn unig heb Iesu, heb y Beibl; ond hefyd heb Dduw ac heb grefydd. Fel y mae gwaethaf y modd ceisia llawer hyny bob dydd; a cheir rhai am dymor yn sicrhau rhyw fath o lwyddiant, a rhai ddinystr truenus. Unigolion ydynt fynychaf yn dilyn llwybr eu mympwy a'u dewisiad eu hunain; yn dirmygu yr hen ffordd dda, ac yn malchder eu calon yn dywedyd,— Ni rodiwn ni ynddi! Y doethion o'r tu arall, a dilynwyr cyfiawnder, gwell ganddynt hwy wrando ar yr Arglwydd a'i geisio; ac edrych ar y graig o'r hon eu naddwyd, ac ar geudod y ffos o'r hon y cloddiwyd hwy. Fe geir allan yn y pen draw, fel mai trech gwlad nag arglwydd, felly trech cymdeithas na'r unigolyn fo'n dilyn llwybr ei hunangais yn fympwyol, ac yn sarnu deddf cyfiawnder. Byw heb grefydd, byw gwael fydd. *Watch* heb *mainspring*, cerbyd tân heb ager ac heb y gyriedydd, gobaith tlawd fydd gan y *passengers* i ddianc galanastra. Byd heb grefydd a dyn heb gydwybod, dyna'r *down-grade* yn wir, dyna'r llwybr yn nghyfeiriad dinystr.

Y mae llawer cynllun wedi ei gynyg o bryd i bryd

I WELLA CLEFYDAU CYMDEITHAS,

a llawer i broffwyd hirben wedi dwyn i'r golwg ei feddyginiaeth anffaeledig; ond rhy debyg ydynt fwyaf o honynt i'r *Patent Medicines* a hyspysebir gymaint i wella pob clwyf. Amrywia'r clefydau, a gofynant amrywiol driniaethau; ond fel y mae gwaethaf y modd y mae ambell i glefyd yn anwelladwy. Meddyginiaeth anffaeledig ambell un yw Deddfwriaeth. Rhaid cael *Act of Parliament* at bob peth. Ond y mae perygl i Ddeddfwriaeth fyned yn gyflymach na llais unol y bobl. Ac am Sosialaeth, cofier

NID UN PETH YW SOSIALAETH,

neu buasai'n bawddach ei deall. Ofnwn fod perygl mewn ambell ffurf o honi. Rhaid yw edrych at iawn-

derau yr unigolyn yn ogystal ag iawnderau cymdeithas. Rhaid edrych na fyddo cymdeithas yn cael ei gweithio fel rhyw beiriant dall nes sarnu yr unigolyn. Mae cymdeithas yn fwy dyledus i'r unigolyn nag yr ydys weithiau yn barod i ganiatau. Mae dwylaw'r gweithiwr yn werthfawr, ac nis gellir gwneud hebddynt; ond y mae penau hefyd o werth. Penau sydd yn sicrhau yr hyn sydd yn angen ar y dwylaw.

PENAU A DWYLAW,

cyfalaf a llafur, trueni mawr eu bod byth mewn ymrafael. Ond cofier mai nid ar grefydd mae'r bai eu bod felly; ond ar y dynion sy'n peidio gosod egwyddorion eu crefydd mewn gweithrediad. Ni chymerwn arnom ac ni fedrwn, benderfynu yn mha le y mae'r bai mwyaf yn gorwedd yn y ßrwydrau Llafur sydd mor gyffredin y dyddiau hyn. Gall nad ydynt ond chwech o'r naill a haner dwsin o'r llall. Credwn mai teilwng i'r gweithiwr ei gyflog – cyflog fyddo'n ddigonol at fwyd a gwisg a chysur; a chredwn fwy na hyny, pe byddai mwy o yspryd y Crist yn meddiant y ddwy blaid y penderfynid yr ymrysonau yn llawer cynt ac yn llawer gwell. Eisieu mwy o gariad brawdol sydd, mwy o barodrwydd i roi a chymeryd, gan gyfleu y rheol euraidd at y pwnc. *Compromise* ydyw pob peth yn y byd, ac nid yw wiw i neb ddisgwyl cael ei ffordd ei hunan i gyd. Ond fe ddylid cofio, pan mae'r ddwy blaid yn ystyfnig fod y gwragedd a'r plant yn fynych yn newynu o ddiffyg angenrheidiau cyffredin bywyd.

Ebe David Hume, athronydd ac hanesydd enwog, a dyn mwyaf y 17eg ganrif yn ol y Proffeswr Huxley, "Gobaith yw y gwir gyfoeth, ac ofn yw y gwir dlodi." Os gwir hyn, y mae'n deilwng o'n hystyriaeth. Y genedl fwya'i gobaith yw y genedl a dyfodol iddi; yr enwad a gobaith byw ynddi yw yr enwad â bywyd i barhau. Deifiol megys dwyreinwynt yw dylanwad pob Mephistopheles ar grefydd. Gwir nad yw ameu ddim yn bechod. Nis gellir oddiwrth ei ymweliadau achlysurol; ond cofier nad yw ameu ddim yn rhinwedd chwaith. Gwir fod

Mewn amheuaeth onest fwy o ffydd
Na cheir yn haner holl gredoau'r [dydd;

eto, ffol fyddai ymorphwys mewn amheuaeth, a ffolach byth bod yn rhyfygus, a cheisio gwrteithio amheuaeth. 'Dwy'n mofyn dim o'ch amheuon, ebe Goethe, y mae genyf fi ddigon fy hunan. Brwydrer yn eu herbyn, nes gorchfygu a *chredu.* Credu sydd yn cario nerth a dylanwad a bywyd. Pwyser, wrth gwrs, mesurer, profer pob peth yn nghlorian rheswm, fel y byddo bywyd ac egni yn ein credu. Ar hyd llwybr credu yr enillwyd buddugoliaethau y gorphenol. Nid credu yn erbyn rheswm, ond gyda rheswm. Nid cau llygaid ac agor pen i gael gweled beth gawn; ond defnyddio yr holl alluoedd a'r holl gyneddfau y doniodd Duw ni â hwy, i bwrpas uwchaf ein bodolaeth – ac yna byw'r bywyd uwchaf a fedrwn yn ofn Duw ac er lles dyn.

Chwi bobl ieuainc, holwch eich hunain, a phenderfynwch heb oedi, beth ydyw nod eich ymgyfeiriad mewn bywyd yn myn'd i fod. Gwnewch eich dewisiad yn ddoeth fel rhai yn teimlo eich cyfrifoldeb. Ceisiwch y ffordd dda yn fore, a rhodiwch ynddi, a chewch fendith Duw yn gorphwys ar eich llafur.

Chwi bobl canol oed, sut mae'r hin, a ydyw yn dechreu oeri? A ydyw y byd yn gwasgu? A ydych yn teimlo eich traed crefyddol yn llesghau? A oes gormod tuedd i glywed – y byd, y byd, yn siarad? Os felly, coeliwch fi, y mae perygl. Ymddeffrowch, Gweithiwch. Nid oes dim yn well na gwaith i gynal i fyny y gwres naturiol. Gweithiwch gyda'ch crefydd, mewn amser ac allan o amser. Gweithiwch er eich mwyn eich hunain, gweithiwch er mwyn esiampl i'r ieuainc. Gweithiwch er mwyn calondid i'r hen.

Chwi hen bobl, Beth am y nos? Y nos pan na ddichon neb weithio. Y mae'r dydd yn nesu i'w derfyn - ac oriau gorphwys gerllaw. Dacw'r dydd yn cilio, a'r ser yn dyfod i'r golwg, a'r goleu ar y lan yr ochr draw. Tynwch ato. Cedwch eich calon i fyny. Parhaed eich hyder a'ch ymddiried hyd y diwedd, yn y llaw sydd yn llywodraethu yn mrenhiniaethau dynion. Pan ddaw'r tywyllwch, tywyllwch y cysgodau i gau am danoch yn y glyn, peidiwch ofni. Mae y Cariad Tragwyddol o hyd yn yr ymyl,

Melus, melus gorphwys fydd
Wedi gwaith hir daith y dydd.

Efe a rydd hun—felus hun—i'w anwylyd, ac yn y bore y bydd gorfoledd. "Deuwch, chwi fendigedigion blant fy Nhad, meddienwch y deyrnas a barotowyd i chwi er seiliad y byd.

Chwi frodyr a chwiorydd anwyl, o bob oedran ac o bob gradd, cofiwch ardderchowgrwydd anrhydedd eich swydd. Yr ydych fel corff wedi ymroddi i amcanion uwchaf bodolaeth. Byddwch ffyddlon i'ch galwedigaeth nefol—i addysgu a chyfarwyddo'r ieuainc, i gynal y bywyd ysprydol yn y canol oed, i ddiddanu yr hen, ac yn mhob modd i ddal i fyny freichiau eich gilydd—i sicrhau i bawb yr hyn a'i gwna yn ddoeth i iachawdwriaeth—fel y byddo dyn Duw yn berffaith wedi ei berffeithio i bob gweithred dda. Am oesoedd a chenedlaethau bydded i'r pererinion deimlo fod arch Duw yn y lle hwn, a bod yma le iddynt ddisychedu a diluddedu, a pharhaed yr ysprydoliaeth newydd i fyned allan, a fyddo'n wir fywyd ac yn wir nerth, nes yr elo y fechan yn fil a'r wael yn genedl gref.

R. J. J.

RHAI O HEN GYMERIADAU BWLCHYFADFA.

[PARHAD]

PENOD II.

Wedi dibynu fel hyn ar ychydig o hanes cymeriadau da yn yr hen YMOFYNYDDION, newidiaf fy nghwrs o hyn allan. Ceisiaf, oreu y gallaf, gael allan yr argraffiadau goreu sydd yn aros ar fy nghof yn ystod y deugain mlynedd, a rhagor, o'r achos yn y lle hwn.

BOREU SUL CYMUNDEB,

yn yr haf tua'r blynyddau 1870 - 1880. Wedi cychwyn ychydig latheni o'r lle yr wyf etto yn byw, safaf ar fryncyn i edrych oddiamgylch, i weled pobl ffyddlawn yn prysuro tua'r addoliad. Yn gynar iawn, fel y crybwyllwyd, gwelaf D. Davies, Crugeryr Uchaf, ar bwys ei ffon goch. Mistir yr arferwn ei alw ef. Cerddai yn ddiwyd, ond araf iawn y gallai deithio y pryd hwn. Cyrhaeddai y Bwlch yn mhell cyn yr amser. Ychydig ar ei ol, gwelaf Sally Gof, bithau, yr adeg hon, yn nesu at yr afon. Cerddai yn sionc tua'r Bwlch, oblegid dyma y lle nesaf at ei chalon. Yr oedd Sally yn un o'r rhai mwyaf selog dros ei hachos. Dilynwn fy nhad a Deio, Waun. Gwrandawn ar yr ymddiddan. Yr oeddent ill dau wedi bod yn y "Faner Fawr" y nos o'r blaen yn hwyr iawn. Siarad-

ent am ei chynwys. Gladston, Dis-ra-eli, Hartington, Bright, Sal-is-bur-y, Cham-ber-laine, Lab-wtsher, Gotshen, Henry Richard, ac Osborne Morgan. Dyna fel y byddwn yn eu clywed yn swnio'r enwau. Cerddent yn araf, yna safent gyferbyn a'u gilydd, bob rhyw ugain llath, yna yn mlaen etto. Wedi cyrhaedd yr heol gwelwn Tomos, Cwarre; Deio, Rhydwen, a Tomos, 'Rhenbant, yn dechreu dringo y rhiw. Maent hwythau wedi gweled y rhan oreu o'r "Faner Fach," a thyna destun yr ymddiddan. Wedi uno yn y cwmni y mae Enoch, Pantcoch, a John Felin, Talgareg, un o ddioddefwyr yr erledigaeth yn 1868 oedd John. Mae pwnc yr ymddiddan rhywbeth yn debyg ganddynt hwythau etto. Tua phen y rhiw mae yn cyrhaedd ei eithafnod; a gwelaf Enoch, Pantcoch, yn taraw un llaw yn drwm yn y llall, gan gyhoeddi a phroffwydo terfyn unwaith ac am byth ar bob trais a gormes benarglwyddiaethol, ac yn cyhoeddi "rhyddid, heddwch, a llwyddiant gwladol a chrefyddol." Mae y llyth-'renau sydd yn arwyddo hyn i'w gweled heddyw ar y mur, wedi ei wyngalchu gan Enoch ei hun. Mae rhan o'r egwyddorion uchod wedi ei gorffori yn ddeddf erbyn heddyw. Yn canlyn etto gwelwn Abram, Graig; Tomos, Saer; Jacob, Talgareg; Tomos y Crydd, a Deio, 'Refel, sef Deio, Pantglas. Mae Deio mor llon ac ysgafn a phan yn fachgenyn. Gwelwn yn awr gerbydau, a rhai ar geffylau. Mae un cerbyd o Llanarth, yn cludo Capt. Davies, Aurora, a Mrs. Davies, ei wraig, a Davies, *Relieving Officer*, ei frawd. Mae'r Cadben newydd ddychwelyd o China bell, a mawr yw'r edrych arno. Cerbyd arall ddaw o Pencnwc, yn dwyn yr

HEN WR DUWIOL

eu tad a John, ei fab. Yn eu canlyn y mae John, Tirgwyn, ar gefn y gaseg wen, a hono heb ôl fawr trwsio arni y boreu yma gan faint y brys i gyrhaedd y capel mewn amser. Mae David y Synod yn cyd-deithio ag ef. Yn croesi y gwaenydd o Pantbach mae Nani, yn cerdded yn frysiog, ac yn ofni, wrth weled y bobl yn duo rhiw Fadfa, ei bod hi yn tynu yn ddiweddar arni. Yr ochr arall i'r capel, wedi cyrhaedd i Rhydsais cyn naw o'r gloch, y mae Evan y Ffos, wedi hyny o'r Aber, ger Capel-yr-hafod. Câ Evan sen gan Sally am ddod mor foreu ar eu traws, cyn iddynt gael amser i glirio tipyn o'r annibendod, fel y dywedai hi. Chwardd Evan yn iachus gan fwynhau'r olygfa. Ond dyna, rhaid mwsdro. Dodir cawl ar y tân, câ ferwi i'r dim neu beidio, cloir y drws, ac eir i'r cwrdd. Yn eu canlyn i lawr i'r afon y mae Dafydd, Dolmaen, a'i ddau fab, hwythau etto yn tynu tua'r Bwlch. Dros fanc Gwaralltferdre gwelwn Tomos, Crydd, Cefngwallter-fach, yn dod yn chwim trwy help ei ffyn. Wedi cyrhaedd Tŷ'r Capel o'n blaen bydd teulu Ffosygiach, a theulu Esgeronwy, a Tomos a Rachel, Ffynonlas. Clywn lais clochaidd Bet, Esgeronwy, yn Tŷ'r Capel yn dweyd ei barn yn ddiofn wrth

GWILYM MARLES,

neu William Thomas, fel y byddem ni yn ei alw y pryd hwnw (maddeuer i ni am ddefnyddio yr enwau cynefin ar yr hen bobl, er mwyn i bawb wybod pwy sydd genym dan sylw.) Mae hi yn amser dechreu y cwrdd, ac awn i fewn. Hen gapel o'r ffasiwn hynaf oedd hwn; grisiau cerrig i fyn'd i'r llofft; dim ond dau gôr, un bob ochr i'r pwlpud, ac yna sgiwiau; pwlpud hen ffasiwn, a galeri uchel, glas a gwyn. Y cof cyntaf sydd genyf eisteddwn yn ochr fy mam, ac wedi tyfu ychydig canlynais fy nhad gan eistedd o dan y pwlpud. Tynai Davies, *Relieving Officer* fy sylw gan ei ddull yn canu. Agorai ei enau yn fwy na'r cyffredin, yn ymddangos felly i fi y pryd hwnw. Amlwg wrtho ef ei fod yn canu gydag hwyl neillduol, neu dyna feddyliaf yn awr. Gerllaw iddo mae

TOMOS, 'RHENBANT,

a'i lais fel yr *organ*, yn canu yr hen donau, y rhai sydd yn anghyfarwydd erbyn heddyw. Nid oedd Tomos byth yn methu.

" Llawn oedd ei ganu yn arwain y dyrfa,
Llawnach ei ymbil wrth orsedd y nef,
A byth yr a'n angho' yn mendith y Fadfa
Y taerni a daniai ei weddi gref."

Gerllaw y mae Tomos y Saer, y blaenor hynaf, a Dafydd y Synod—y ddau ddiacon. Yn ystod y bregeth bydd yr hen frodyr hyn yn sefyll ar eu traed ac yn eistedd bob yn ail. Dyna fel y byddent hwy yn mwynhau y gwasanaeth.

O dan y pwlpud y mae John y Ffatri; John, Rhydsais, a Jack y Gof, yn canu gyda'r yspryd a'r deall hefyd, weithiau yn ymddangos fel pe ar golli eu penau. Yr ochr chwith y mae Jenkin a John, Gwaralltferdre, hwythau eto yn mwynhau cystal a neb yn y capel. Yr ochr ddeheu i'r pwlpud mae yr hen wragedd yn eu hetiau mawr, fel y cofiaf gyntaf, wedi hyny'r hetiau bach a chap a napcyn. Fy mam, Mary Jacob; Nani, Crydd; Nel, Rhydwen; Mary, Nantygwyddau fach, a Chatti, Trafle. Daeth Sian, Pantybryn, yn un o honynt, er nad oedd Sian yn gwisgo am ei phen yn hollol yr un fath. Hannah, Fadfa, etto, a Sally, Rhydsais, a llawer eraill nas gallaf enwi yn y fan hon. Ar y llofft y mae James Lloyd, Moelivor; Deio, Rhydyrhaiarn; a Dafydd, Glandwr, a chyda llaw, dymunaf sylwi fod ŵyrion bach i Dafydd, Glandwr, yn dod yma yn gyson yn awr, er gwlyped y ffordd, heb neb yn eu harwain. Pwy a amheua nad oes yna *secret* fach yn nghalonau y ddau fach hyn i gadw i fynu grefydd eu tad-cu? Duw yn rhwydd iddynt i barhau yn ffyddlawn.

Y tu ol i'r *clock* y mae Tomos y Crydd. Yr oedd y rhan fwyaf o'r hen frodyr parchus a ffyddlawn hyn yn perthyn i "Gymdeithas gwallt-i-lawr" (chwedl Wil Bryan). Wedi tynu eu hetiau tynent eu dwylaw i lawr eu talcen er cael y gwallt i'w drefn, ac yna pob peth yn iawn. Cofiaf hefyd am Betto a Deio, Gwardafolog, a hen wraig Cwmbach (Nancy), sef mam Tomos, Henbant. Dyma yr unig un wyf yn gofio allasai adrodd hanes dechreuad yr achos yn y lle yma. Yr oedd Deio, Gwardafolog yn ddadleuwr di-guro, meddai nhad. Ni chredai yn ngweinyddiad y cymun, ac nid hawdd fyddai ei drechu mewn dadl ar y pwnc. Tomos, Saer oedd y cyhoeddwr yr amser hwn. Dafydd y Synod, neu Cornmount cyn hyny, fyddai yn gofalu am win y cymun. Potel fawr ac un yn llai. Cofiaf ef yn dda yn eu tynu o'i logell wedi dod i fewn i'r capel. Wedi i mi dyfu yn hogyn cefais genad i fyn'd i'r llofft. Yn y fan hono gwaith anhawdd y pryd hwnw oedd i mi gael fy ngen uwchlaw y galeri uchel, fel ag i allu canfod y llawr. Cofiaf Gwilym Marles yn dda. Cofiaf ei eiriau mwynaidd, miniog yn dweyd "am fod yn dawel yn y cornel yna, ni chadwaf chwi yn hir." Mor falch oeddwn fy mod ychydig o'r cornel hwnw. Cofiaf yn dda am

Y Sul Bythgofiadwy

hwnw, pan wedi pregethu yn weddol gryf, ac heb i neb feddwl fod dim allan o le, y torodd y newydd garw "am gloi hen gapel Llwynrhydowen," gan ein gwahodd i'r cwrdd galarus hwnw yn y prydnawn, allan ar yr heol gyferbyn a'r capel, a Gwilym Marles mewn llais crynedig yn anerch canoedd lawer o bobl. Ie! Sul nad ä yn angho' oedd hwn, Sul y cofir am dano tra y parhao crefydd rydd yn Nyffryn Clettwr. Cofiaf hefyd am y Sul dilynol ar glôs y Felin. Saesneg oedd y bregeth y Sul hwn; a'r hyn a dynai fy sylw oedd y *reporters*. Gwenai yr eiddo y *South Wales Daily News* pan gawsai ambell ergyd gweddol ei daro gan Gwilym, tra yr oedd cynrychiolydd y *Western Mail* i'r gwrthwyneb. Dyna yr oll fedrwn ddeall y dydd hwnw.

Ond i ddychwelyd i'r Bwlch eto, gwelaf Siams Waunfawr, un ochr i Gwilym yn y Pwlpud, ac hen wraig Ffoshelig yr ochr arall,—sef mam Margaret Davies, Troedrhiw, Crugeryr. Y ddau hyn yn drwm eu clyw. Dyma harddwch mewn capel diaddurn. Yr oedd yr hen frodyr parchus hyn yn wir ddifrifol gyda'r gwaith. Ni wnaf anghofio Davies Pencnwc yn yr Ysgol Sul, pan weloodd rywun yn cymeryd pethau yn ysgafn—yr oedd hyny yn ei wneud yn llym iawn ei gerydd. Byddai ef a'r Cadben a John yn aml yn aros i'r ysgol yn y prydnawn. Yr oedd John mor barod a neb pwy bynag yn ateb pan y byddai yr ysgol yn cael ei holi, ond pob amser i'r pwynt. Thomas 'Rhenbant wyf yn gofio gyntaf yn athraw arnaf. Ni holai Thomas, os wyf yn cofio yn iawn, ond eglurai dipyn ar yr adnod ac yna yn mlaen. Ar y lloft y byddem fel ysgol yn dweyd y pwnc, neu fyn'd dros y benod. Gofyniadau wedi eu tynu allan gan W. Thomas a W. James wedi hyny, a'r atebion i gael eu paratoi gan yr athrawon ar bapyr, a ninau y rhai ieuainc yn eu dysgu ar ein cof neu eu darllen. Fy nhad oedd yr holwr bob amser yn yr ysgol, yn sefyll o dan y pwlpud. Nid oes yma yn awr ond Mr. J. R. Thomas a fu yn ysgrifenu atebion, a chof genyf fy mod yn awyddus am eu bapyrau ef gan ei fod yn ysgrifenu yn llawn, ac yn trin y pwnc yn helaeth. Yr oedd y diweddar

DAVID THOMAS, FADFA

yn yr ysgol yr amser hwn. Byddai yn athraw ar ddosparth o blant bach. Cymerai Dafydd ambell napyn bach, ond pan ddihunai, a dal rhywun yn gwneud yr hyn na ddylai, ni synem glywed y llyfr yn disgyn ar ei ben. Yn ei ddosparth ef yr oedd Dan Pantybryn — cymeriad adnabyddus y pryd hwn, a diniwed iawn oedd Dan. 'Doedd Dan ddim fel ni yn gyffredin, un gwirion oedd. Nid oedd Dan yn dysgu dim—yn fachgen mawr gyda'r plant bach—ond yr oedd Dan yn llanw ei le. Os y byddai yn absenol ambell Sul, o herwydd myn'd am dro gartref, byddai y plant bach yn siomedig. Mae gan gymeriad fel hwn ddylanwad ar ysgol Sul, ac ar grefydd. Y sawl a amheuo hyn darllened Rhys Lewis a chwilied am Seth yno.

(*Pw barhau.*)

CYMANFA GERDDOROL CEREDIGION.

Dydd pwysig ar gyfrif llawer o ystyron gan Undodiaid Sir Aberteifi ydyw dydd eu Cymanfa Ganu. Heblaw y lles dirfawr a'r gwasanaeth amlwg y mae wedi wneud yn nghaniadaeth y cysegr, y mae yn gyfleusdra hefyd i'r llwythau Undodaidd dd'od yn nghyd, nid yn unig i weled hen wynebau, ac adnewyddu hen gyfeillgarwch a chychwyn ambell un newydd, ond hefyd mae yn ysprydiaeth effeithiol, mi gredaf, i bawb gafodd y fraint o fod yn bresenol, i fod yn ffyddlonach nag erioed yn y gongl hono o'r winllan lle y llafuriwn. Dyma'r effaith o leiaf gynyrchwyd ar feddyliau rhai o honom pan yn dychwelyd o'r Gymanfa eleni. Cynhaliwyd hi drwy garedigrwydd parod gweinidog ac eglwys Soar, Llanbedr, yn eu capel eang a hardd hwy. Bu y gweinidog y Parch.

Evan Evans yn bresenol drwy y dydd, llywyddodd yn ddeheuig iawn yn nghyfarfod y prydnawn a bu ei briod hawddgar yn chwareu yr Organ drwy y dydd. Llywyddwyd yn y cyfarfodydd eraill gan Dr. D. J. Davies, B.A., Ph.D., Aberystwyth, a'r Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen. Yr arweinydd ydoedd Mr. Evan Richards, Llandyssul. Gwyddem o'r blaen am fedrusrwydd Mr. Richards fel arweinydd llwyddianus ar lwyfan yr Eisteddfod, a chredwn mai barn pawb yw ei fod wedi ychwanegu at ei lwyddiant fel arweinydd medrus y Gymanfa. Erbyn cyrhaedd cwrdd yr hwyr, yr oedd yr hwyl gerddorol yn bur uchel, a'n profiad oedd mai da oedd i ni fod yno. Llawenydd mawr i ni oedd gweled fod y fath fintai gref o 64 o aelodau ffyddlon Gellionen wedi dyfod yr holl ffordd mewn dau fodur yn cael eu harwain gan y Parch. D. G. Rees, eu gweinidog. Yr oedd y gweinidogion canlynol hefyd heblaw y rhai enwyd yn bresenol :—Parchn. John Davies, R. C. Jones, David Evans, T. Arthur Thomas, Lewis Williams, J. Carrara Davies. Gofalodd y Pwyllgor am ddetholiad destlus o donau yr hyn fu yn help mawr i wneud y Gymanfa mor llwyddianus, ond awgrymwn yn garedig fod angen mwy o ofal i ddewis yr emynau nag a fu yn debygol yn y rhaglen hon. Y mae ynddo rai llinellau ydynt yn hollol anghydweddol a'r ffydd syml broffeswn, a dylai yr ochr hon gael mwy o sylw y pwyllgor yn y dyfodol. Rhanwyd nifer o dystysgrifau i'r plant fu yn llwyddianus i basio arholiad mewn cerddoriaeth. Aed y mudiad hwn ar ei gynydd.

Yn nghyfarfod yr hwyr cafwyd hwyl neillduol wrth ganu amryw o'r tonau. Gan fod Mr. Ceredig Jones yn awdwr dwy o'r emynau yn y rhaglen, ac iddo barch mawr yn ein plith, ac yntau yn gorwedd o dan afiechyd poenus yn hir, gwnaeth y Llywydd gyfeiriad tyner tuag ato, a phasiwyd gan yr holl gynulleidfa ein bod yn awdurdodi yr Ysgrifenydd i ddanfon ato ein cydymdeimlad llwyraf ag ef yn ei afiechyd. Digon yw dweyd wrth derfynu fod y Gymanfa yn llwyddiant mawr o'r dechreu i'r diwedd, a dymunem gydnabod yn ddiolchgar lafur y swyddogion yn enwedig yr Ysgrifenydd gan mae ar ei ysgwyddau ef y syrthiodd ran fwyaf o'r gwaith. Hir yr erys y Gymanfa i fod yn allu yn ein plith i wella caniadaeth y cysegr fel y byddo moliant gwell yn cael ei roddi i Dduw.

PRIODASAU.

EBRILL 28, yn nghapel Gellionen, gan y Parchn. D. G. Richards a D. G. Rees, ac o flaen y Cofrestrydd, Mr. N. L. Davies, unwyd mewn hardd briodas, Mr. David John Thomas, Heolyllwyn, Pontardawe, a Miss Lizzie Anne Jones, Heolddu, ger Pontardawe.

MEHEFIN 1, yn nghapel yr Undodiaid, Thomas-town, Merthyr, gan y Parch. J. Carrara Davies, gweinidog yr Hen-Dy-Cwrdd, Cefncoed, ac yn mhresenoldeb Mr. Beslie, Cofrestrydd, Mr. John Aeron Evans, Merthyr, a Miss Mary Jane Morgan, Maesteg Terrace, Cefncoed.

MEHEFIN 2, yn yr un capel, gan yr un gweinidog, ac o flaen yr un Cofrestrydd, Mr. David William Price, Merthyr, a Miss Blodwen Morgan, High Street, Cefncoed. Hir oes llawen iddynt i gyd.

MEHEFIN 10, yn nghapel Pantydefaid, gan y Parch. T. Arthur Thomas, Mr. John Owen James, unig fab y diweddar Barch. William James, B.A., J.P., a Mrs. James, Brynhyfryd, â Miss Mally Evans, unig ferch y diweddar Mr. a Mrs. Evans, gynt o'r Porth Hotel, Llandyssul. Y bendithion goreu ddilyno yr uniad.

MEHEFIN 13, yn Rhydygwin, gan y

Gweinidog a'r Parch. B. Carolan Davies, Ty'nygwndwn, ac yn mhresenoldeb Mr. J. M. Howell, y Cofrestrydd, Mr. Rees Jenkins, Brynawel, Dihewyd, a Miss Mary Harries, Glanfaen, Ciliau Aeron.

MARWGOFION.

MAWRTH 24, yn 36 oed, Harriet, anwyl wraig Enoch Francis, Rhodfa'r Gledrffordd, Caerau, ger Maesteg. Fu ein diweddar chwaer ddim yn rhy dda ei hiechyd er ys tipyn o amser, a hi a suddodd o waelder i waelder nes o'r diwedd iddi sangu ar lwybr dros yr hwn na ddychwel mwy. Symudodd ein gwrthrych o Drebanos i'r lle a enwyd uchod, tua deng mlynedd yn ol. Ymaelododd yn Gellionen a'r Graig am dymor, a chwedi symud, ymaelododd yn nghapel Seion, Caerau, o dan ofal y Parch. — Thomas, o'r un lle. Claddwyd hi y dydd Sadwrn canlynol yn nghladdfa gyhoeddus Maesteg, a phregethodd ei gweinidog gyda thynerwch. Gedy hi dri phlentyn a chydmar, pum chwaer a thri brawd, ar ol i alaru y golled. Disgyned gwlith cariad y nefoedd ar bob un o honynt, fel y paro iddynt agoshau fwy-fwy bob dydd at yr hwn sydd wedi bod, ac yn abl i dderbyn yr hyn a roddir ato.

Os cymyl gasglasant
Uwch llwybrau y bywyd,
Y cymyl ddiangant
O oror y gwynfyd.

MAI 29, yn 61 oed, Mr. John Davies, Brynawel, plwyf Penbryn, gan adael priod, plant, brodyr a chwiorydd ar ei ol. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol yn mynwent Pantdefaid. Gwasanethwyd yn y ty gan Ficer Llandysilio; pregethwyd yn y capel a gwasanaethwyd ar lan y y bedd gan y Parch. Arthur Thomas.

MAI 29, yn 51 oed, bu farw Anne Davies, Three Horse Shoe, Cribyn. Yr oedd ei hiechyd wedi gwanychu er's blwyddyn neu ragor; ond yn ystod yr ychydig fisoedd diweddaf dioddefodd gystudd caled. Gadawodd mewn galar ar ei hol dri mab, nith (neu ferch fabwysiedig), un brawd, a phedair chwaer. Claddwyd ei gweddillion yn ymyl ei phriod a'i dau blentyn, ym mynwent Cribyn, dydd Mawrth canlynol, pryd y daeth nifer anarferol o luosog yn nghyd i dalu iddi y gymwynas olaf. Pregethwyd ar yr achlysur gan D. Evans, gweinidog Cribyn, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth hefyd gan y Parchn. Cenech Davies, Cilcenin, a J. Davies, Alltyplaca.

MEHEFIN 5, yn 82 oed, bu farw John Lloyd, Glancledlyn, Drefach, Llanwenog, gynt o Pantywilco, Llanwnen. Yr oedd yn gerddor medrus, a bu flynyddau lawer yn ol yn adnabyddus iawn yn y cymeriad hwn dros gylch eang yn nghanolbarth Ceredigion. Bu yn flaenor y gân am dymor maith yn Nghapelygroes, a gwnaeth wasanaeth gwerthfawr mewn cyssylltiad a chaniadaeth gysegredig yn y lle uchod, a manau ereill. Cyrchid atto, hefyd, gan lawer am gyfarwyddyd mewn cerddoriaeth; a gelwid am ei wasanaeth yn aml fel beirniad mewn cyfarfodydd cystadleuol. Efe oedd arweinydd y Gymanfa Gerddorol gyntaf a gynhaliwyd mewn cysylltiad a'n heglwysi yn Ngheredigion yn 1872. Yn Capelygroes y cynhaliwyd y gymanfa hono. Hebryngwyd ei weddillion i gladdfa Capelygroes y dydd Mawrth canlynol gan dyrfa liosog. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle. Dyledus yw cofnodi ei fod wedi gadael deugain punt i'r gynulleidfa uchod fel arwydd o'i serch at yr achos yn y lle.

MEHEFIN 11, yn 43 mlwydd oed Mrs. Frances Evans, anwyl briod Mr. John Evans, Wilkes Head Hotel, Llandyssul. Daeth y diwedd yn anisgwyliadwy iawn i gyfarfod a'r ymadawedig, er ei bod er ys rhai

misoedd yn anhwylus. Perodd ei marwolaeth chwithdod a siom fawr, nid yn unig i'w phriod a'i phlant, ond i gylch helaeth cyfeillion Mrs. Evans yn mhob man. Yr oedd yn un fawr berchid ar gyfrif aml rinweddau nodweddent ei bywyd. Bu yn briod ffyddlawn a diwyd, yn fam dyner a gofalus, o yspryd serchog a charuaidd. Yr oedd yn feddianol ar farn addfed ar lawer o bynciau, ac yr oedd bob amser yn barod i roddi rheswm dros y gobaith oedd ynddi. Colled fawr iawn i'r teulu fu ei symudiad, ac y mae pawb a'u hadwaenant yn cydymdeimlo o galon a hwynt. Heblaw priod a chwech o blant y mae hefyd dad, a brodyr a chwiorydd, a chylch helaeth o berthynasau eraill a chyfeillion yn wylo ei cholli. Y dydd Llun dilynol i'w marwolaeth claddwyd yr hyn oedd farwol o honi, yn Llwynrhydowen, yn nghanol amlygiadau o hiraeth a chydymdeimlad dwys torf anarferol o fawr. Gwasanaethwyd yn y tŷ a phregethwyd yn y capel gan y Parch. T. Arthur Thomas, a gorphenwyd ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins.

MEHEFIN 12, yn 70 mlwydd oed, Mr. David Jones, Maesymeillion, gynt o Blaenllyn, plwyf Llandyssul. Yr oedd yr ymadawedig yn gymeriad adnabyddus yn yr ardal, a phawb yn hoff o hono. Bu yn weithiwr diwyd ar hyd ei hoes, yn gymydog parod i gymwynas ac yn ddiddrwg yn ei amcanion. Magodd i fynu naw o blant, y rhai yn nghyd a'i weddw adawodd mewn galar ar ei ol. Claddwyd ei weddillion marwol yn Mhantydefaid, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Arthur Thomas.

MEHEFIN 15, Mr. David Davies, diweddar Blaenwaunisaf, Cellan, yn 66 mlwydd oed. Bu'r ymadawedig un dydd yn ei hanes yn fasnachwr pur helaeth, a chredwn fod pob un o'i gydnabod yn ddieithriad yn edrych arno fel dyn caredig o galon, ac yn edrych arno hefyd nid yn unig fel masnachwr o sylw anarferol ond hefyd fel masnachwr gonest, a didwyll, ond er pob rhagoriaeth nid oedd yntau heb ei ddiffygion. Gadawodd mewn chwithdod mawr ar ei ol weddw, pedair chwaer, dau frawd, heblaw perthynasau eraill. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Caeronen, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle yn cael ei gynorthwyo gan Reithor y plwyf a'r Parch. Jones, Capel Erw.

MEHEFIN 15, yn 79 mlwydd oed, Mr. John Jones, Brynowen, gynt o Gamnantfach, plwyf Llandyssul. Gwelodd Mr. Jones flynyddoedd lawer ar y ddaear, a threuliodd hwy mewn bywyd llawn o ddefnyddioldeb. Dyn hynaws a charedig ydoedd yn ei gartref, cymydog heddychlawn a chyfaill cywir a didwyll. Dygai fawr sel dros yr achos crefyddol yn Mhantydefaid; bu yn golofn gadarn iddo ar hyd ei oes faith. Gwasanaethodd y swydd o ddiacon, ac eithriad byth fuasai gweled ei le ef yn wag. Nid yn unig hyny, ond mynychai yr Ysgol Sul yn gyson hyd y diwedd. Yr oedd yn esiampl ardderchog i lawer yn ei ffyddlondeb gyda'r pethau hyn, yn esiampl hefyd yn nidwylledd, a chywirdeb a gonestrwydd ei fywyd. Er ei fod wedi ymddeol o'i fasnach er ys rhai blynyddoedd eto rhoddai ei gwsmeriaid oll air uchel iddo yn y cymeriad hwn. Yr oedd yn fywyd llawn a gorphenedig yn yr ystyr oreu. Bydd ei le yn wag iawn, yn arbenig yn ei gartref ac yn ei eglwys garai mor fawr. Tarawiadol oedd testyn ei bregeth angladdol, "Da was, da a ffyddlawn." Dydd Gwener dilynol daeth tyrfa fawr, o bell ac agos, i dalu iddo y gymwynas olaf wrth osod ei lwch i orwedd yn mynwent Pantydefaid. Gwasanaethwyd yn y tŷ a phregethwyd yn y capel gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. John Davies, Alltyplaca, ac E. O. Jenkins, Y. Llwyn. Gadawodd weddw, dwy ferch, ac un ŵyr mewn galar mawr o'i golli.

MEHEFIN 17, yn 61 mlwydd oed, Esther Jones, neu Hetty fel yr adnabyddid hi oreu, Well St., Llandyssul. Claddwyd yn Pantydefaid y dydd Sadwrn dilynol, Ficer y plwyf yn

gwasanaethu yn y ty, a'r Parch. T. Arthur Thomas yn y capel ac ar lan y bedd.

MEHEFIN 19, yn dair wythnos oed, Annie Muriel, baban Mr. a Mrs. Jones, Ralltfach, ger Pantydefaid. Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol yn Pantdefaid, y Parch. Arthur Thomas yn gwasanaethu.

MEHEFIN 21, yn 29 mlwydd oed, Miss Mary Anne Evans, Prospect Place, Ponttwelly, Llandyssul. Bu yr ymadawedig yn dioddef er ys amser hir oddiwrth ymosodiadau y pla gwyn. Ymdrechodd yn galed, a hyny o dan anhawsderau, i gadw'r pladurwr mawr yn mhell, ond ar y dydd uchod ehedodd ei hyspryd siriol at Dduw yr hwn a'i rhoes. Merch ieuanc rinweddol oedd yr ymadawedig, o dymher addfwyn a chalon siriol, a gwisgodd y sirioldeb hwnw hyd y diwedd. Yr oedd ei ffyddlondeb yn nodedig gyda'r achos yn y Graig, yn enwedig felly yr Ysgol Sul. Caffed ein merched ieuainc gyffelyb ffyddlondeb ysbryd a chymeriad fel y byddo iddynt fod yn anrhydedd iddynt eu hunain ac yn glod i Dduw. Nid anghofir yn fuan Mary Anne Evans gan y rhai gafodd y fraint o'i hadnabod. Y dydd Gwener dilynol gosodwyd ei phabell bridd i orwedd yn mynwent Penybont (B.). Gwasanaethwyd yn y tŷ a phregethwyd yn y capel gan ei gweinidog, y Parch. Arthur Thomas, a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. D. C. Griffiths, gweinidog Penybont. Gedy yr ymadawedig dad a mam mewn galar mawr o golli eu hunig blentyn.

MANION AC HANESION.

ABERYSTWYTH. — Llongyfarchwn ein cyfaill T. Oswald Williams, o Goleg y Brifysgol, ar ei ddewisiad gan Gymry'r Coleg i fod yn Olygydd "Y Wawr" am y flwyddyn nesaf. Mae y cylchgrawn Cymraeg hwn bellach wedi cwblhau ei gyfrol gyntaf, ac wedi bod yn llwyddianus bron tuhwnt i ddisgwyliad. Teimlwn yn sicr fod ei ddyfodol yn ddyogel yn nwylaw galluog ein cyfaill, a dymunwn i'r ddau bob llwyddiant yn eu cysylltiad a'u gilydd.—*D. J. D.*

GRAIG A GELLIONEN.—Yn ysgoldy newydd y Graig, nawn Sadwrn, Mai 9, rhoddodd yr eglwys uchod wledd o dê a bara brith a danteithion eraill i'r oll o'r rhai hyny, yn fychain a mawrion, a gymerasant ran yn y chwareugerdd fyd-enwog hono a berfformiwyd yn Mhontardawe yn nechreu Ebrill diweddaf. Dymunant oll, drwy gyfrwng YR YMOFYNYDD ddiolch yn fawr am y cyfle campus hwn i adenill nerth yn ol, wedi y ffwdan a'r trwst, yn gymysgedig a chysur a llawenydd, i gael y llyfr yn barod.——Gwn y bydd yn bleser gan bawb i wybod i Mr. Williams, Trebanos i gipio y pres a'r clod yn nghystadleuaeth chwareu y crwth, yn Eisteddfod Gadeiriol Pontardawe, yr hon a gynhaliwyd Mehefin 20. Cafodd gymeradwyaeth uchel gan y beirniad.

"Uwch, uwch ac uchach yr el,
Dringed i gadair angel."

LLWYDDIANT.—Blin genym na fuasem wedi cofnodi yn gynt am lwyddiant Mr. Thomas Davies, maen-gerfiwr (Abercerdinen gynt) yn Eisteddfod Llanddewi-brefi. Ei gôr ef ddaeth allan yn fuddugol o bump o gorau. Mae Mr. Davies wedi dringo yn uchel yn y byd cerddorol fel arweinydd a beirniad, a bu yn arwain ein Cymanfa Gerddorol ychydig flynyddau yn ol. Llwyddiant iddo eto.

ARHOLIAD YR YSGOL SUL.—Blin genym ddarfod i wall fyned i mewn i'r adroddiad uchod yn ein Rhifyn diweddaf. Dylai enw Evan James o Ysgol Sul, Llwynrhydowen fod wedi ymddangos yn y Dosparth cyntaf o'r Safon gyntaf.

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Llywydd : Y Parch. E. O. JENKINS, Llwynrhydowen.
Is-lywydd : W. S. JONES, Ysw., M.A., M.Sc., Aberystwyth.
Trysorydd : D. MARTIN JONES, Ysw., Gwion Castle, Llandyssul.

:: CYNHELIR ::

CYFARFODYDD BLYNYDDOL

YR UCHOD YN NGHAPEL

PANTYDEFAID

Dyddiau Mawrth a Mercher, Gorphenaf 28 a 29, 1914.

Bydd Trefniadau y Cyfarfodydd fel y canlyn :—

Nos Fawrth, am 6 o'r gloch—Cynhelir y Pwyllgor Arianol
" " 7 " —Pregethir gan y Parchn. Lewis Williams, Rhydygwin a E. R. Dennis, Rhondda.

Dydd Mercher am 9 o'r gloch—Cynhelir Pwyllgor y Gymdeithas.
" " 10.30 " —Pregethir gan y Parch. R. J. Jones, M.A., a thraddodir anerchiad Saesneg gan George H. Leigh, Ysw., Cynlywydd y *British and Foreign.*
" " 1 " —Cynhelir Pwyllgor yr Ysgol Sul.
" " 2 " —Traddodir annerchiad y Llywydd, y Parch. E. O. Jenkins, a phregethir gan y Parch. Proff. Morris B. Owen, B.A., B.D., Coleg Caerfyrddin.
" " 6 " —Pregethir gan y Parchn. Simon Jones, B.A., a D. G. Rees.

Estyna yr eglwys yn Mhantydefaid wahoddiad cynes i weinidogion a chynrychiolwyr eglwysi i'r cyfarfodydd uchod, ac erfynir ar bawb dieithriaid fwriadant aros dros y nos, ymohebu a'r gweinidog er gwneud y parotoadau angenrheidiol i'w croesawu. . . . . .

Gwneir i fynu Bwyllgor y Gymdeithas gan (1) Gweinidogion pob eglwys sydd yn casglu at y Gymdeithas; (2) Un cynrychiolydd oddiwrth bob un o'r eglwysi hyny (3) Tanysgrifwyr o haner coron ac uchod.

Dymunir adgofio swyddogion eglwysi, ynghyd a thanysgrifwyr hen a newydd fod eu cyfraniadau blynyddol yn awr yn ddyledus.

T. ARTHUR THOMAS, (Ysgrifenydd).

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

"PARABL PERERIN CYMREIG O GELLIONEN I'R AIPHT A CHANAAN AC YN OL."

TRADDODIR . . . .

DARLITH

Ar y Testun uchod, gyda 50 o ddarluniau, gwisgoedd brodorol, etc., i egluro arferion y Beibl.

Ymofyner â'r **Parch. D. G. Rees, Trebanos, Pontardawe, Glam.**

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing food for everybody.

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank Limited,

WITH WHICH IS INCORPORATED THE

NORTH AND SOUTH WALES BANK.

—ESTABLISHED 1836.—

Directors:

SIR EDWARD H. HOLDEN, BART., (Chairman and Managing Director).
WILLIAM GRAHAM BRADSHAW, ESQ., LONDON (Deputy-Chairman).

The Right Hon. Lord Airedale, Leeds.
Sir Percy Elly Bates, Bart., Liverpool.
Robert Clover Beazley, Esq., Liverpool.
Sir William Benjamin Bowring, Bart., Liverpool
John Alexander Christie, Esq., London.
David Davies, Esq., M.P., Llandinam, Mont.
Frank Dudley Docker, Esq., C.B, Birmingham
Frederick Hynde Fox, Esq., Liverpool.
H. Simpson Gee, Esq., Leicester.
John Howard Gwyther, Esq., London.
Arthur T. Keen, Esq., Birmingham.
The Right Hon. Lord Pirrie, K.P., London
The Right Hon. Lord Rotherham, Manchester
Thomas Royden, Esq., Liverpool.
William Fitzthomas Wyley, Esq., Coventry
Sir Guy Douglas Arthur Fleetwood Wilson, K.C.B., K.C.M.G., G.C.I.E.

Authorised Capital ..	£22,200,000	Subscribed Capital ..	£20,873,520.
Paid up Capital ..	£4,348,650	Reserve Fund ..	£3,700,000.

Deposits .. £93,833,580.

BRANCHES AND AGENCIES IN CARDIGANSHIRE AND CARMARTHENSHIRE:—

Aberayron, Aberystwyth, Aberporth, Ammanford, Brynamman, Cardigan, Carmarthen, Cross Hands, Crymmych, Drefach, Kidwelly, Lampeter, Laugharne, Llanon, Llanboidy, Llandilo, Llandyssul, Llanelly, Llanybyther, Newcastle Emlyn, New Quay, Pencader, Pontardulais, Pontrhydfendigaid, Pontyberem, St. Clears, St. Dogmael's, Tregaron, Whitland.